YR YMOFYNYDD.

Rhif 50.] HYDREF, 1851. [Cyf IV.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

"Mewn Cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—Gol.

URDDAU OFFEIRIADOL.

Mr. Golygydd,—Y mae digwyddiadau a'r nad ydynt ond dichwaeth neu o ychydig bwys ynddynt eu hunain, yn ymddangos yn fynych o bwys mawr yn eu cysylltiad ag arwyddion yr amserau, Dengys gwelltyn pa ffordd mae rhediad y dwfr.

Mae archesgob Canterbury yn ddiweddar wedi dwyn ei hun i biccil canolig, o herwydd proffesu mwy o haelfrydedd a thynerwch Cristnogol nag y sydd gymeradwy gan yr offeiriaid sydd dan ei lywyddiad. A gwaeth na'r cwbl, y mae wedi beiddio credu bod yr esgobion a'r offeiriaid yn gyffredinol yn meddu ar y cyffelyb deimladau haelfrydol âg ef ei hun. Stori ryfedd iawn ydyw. Y mae yn gosod dau beth mewn cyferbyniad crŷf a'u gilydd; sef, hynawsedd a diniweidrwydd yr arch-esgob, ar un llaw; a chulni ac haerllugrwydd y blaid Buseyaidd, ar y llaw arall. Nid y lleiaf o arwyddion yr amserau ydyw gweled y praidd eglwysig yn troi eu cyrn yn erbyn eu pen-bugail. Am y Pabydd *Jesuitaidd*, yr hwn a osododd ei ddichellion ar waith, gyda'r amcan o ddwyn yr hen arch-esgob i'r magl; mae ei ddigywilydd-dra noeth yn amlwg i bob dyn.

Tua diwedd mis Awst ymddangosodd brawddeg yn y Newyddiaduron, un ar ôl y llall, yr hon a broffesid ei bod wedi ei thynu allan o lythyr a ysgrifenodd yr arch-esgob at ryw un nad enwid, i'r perwyl canlynol:—Yn cyfeirio at bresenoldeb *Proffessor D'Aubigne* ac eraill o weinidogion Protestanaidd Tramor enwog, yn Llundain, a chwenychiad naturiol amryw o aelodau Eglwys Loegr i weled agor pulpidau yr Eglwys sefydledig i'r fath ddynion; bod hyn wedi cael ei nodi gan *wyr y defodau* (ritualists), fel rhwystr anorchfygol; sef, nad oedd y cyfryw weinidogion wedi cael eu hurddo gan esgobion; ac efelly, tra y mae y cenhedloedd mwyaf pellenig wedi bod yn ymfrawdoli yn Llundain; bod eglwysi brawdol Ewrop Protestanaidd yn cael eu cadw ar wahân. Yn fuan iawn cyhoeddwyd yn yr un newyddiaduron fod arch-esgob holl Loegr wedi dywedyd yn bendant yn erbyn y fath gulni, yn

y geiriau canlynol :—"Braidd y tybiaf fod dau esgob ar y *bench*, neu un offeiriad mewn hanner cant, a wadent ddigonoldeb urddau y gweinidogion hyn, yn unig o herwydd y diffyg o arddodiad dwylaw esgobawl."

Ar hyn ffromodd yr *high-church party* yn aruthr ; a galwyd ar yr arch-esgob naill ai i wadu mai efe a ysgrifenodd y llythyr, neu ynte i ofyn maddeuant am ei waith yn lletya'r fath dyb dda am ysbryd Cristnogol ei frodyr esgobawl ac offeiriadol.

Yn awr, o ba le y daeth y llythyr? A ddarfu i'r arch-esgob ei ysgrifenu? At bwy yr ysgrifenwyd ef? Sylwyd arno ar y pryd, fel peth hynod, mai y newyddiaduron Pabaidd gafodd afael gyntaf arno, ac mai hwynt-hwy oeddent fwyaf awyddus i wneuthur defnydd o hono. Ar yr ail ddydd o Fedi, cyhoeddwyd y llythyr ei hun, ynghyd ag eraill mewn eglurhâd o hono yn y *Morning Chronicle*, trwy awdurdod yr arch-esgob.

Dyma yn fyr, ydyw hanes y llythyron :—

Ar y 18fed o Fehefin, anfonwyd llythyr at yr arch-esgob, wedi ei arwyddo gan W. Francis, 67, Holywell Street, Westminster ; yn yr hwn y dywed mai "un ydoedd ag oedd wedi troi oddiwrth ymneilldnaeth at yr Eglwys sefydledig ; " ac fel y cyfryw, ei fod yn awyddus i wybod nad oedd yr arch-esgob yn cytuno ag esgob Llundain i edrych ar y gweinidogion tramor hyny fel "gwyr llëyg yn unig ;" oherwydd, os oedd y fath ysbryd cul yn perthyn i Eglwys Loegr, nas gallai efe, W. Francis, ei thröedig newydd, ddim parhau i berthyn i'w chymundeb.

Yr arch-esgob, druan, heb ddrwg-dybied, a'i hattebodd mewn llythyr a gynnwysai y difyniad uchod ; gan gynnyg esboniad o eiriau esgob Llundain, fel yn cyfeirio at sefyllfa y gweinidogion Tramor hyny yn ngolwg y *gyfraith ;* ac nid yn cynnwys o angenrheidrwydd, ei fod ef yn fwy na'r arch-esgob yn ammeu digonoldeb eu hurddau yn ngwydd yr Eglwys Gristnogol.

Nodasid yr attebiad, *private*, fel mae'n arferol. Ond yn mhen ychydig ddyddiau deallodd yr arch-esgob ei fod wedi cael ei ddangos i amryw ddynion. Yna anfonodd ei gaplain i alw ar Mr. W. Francis, yn 67, Holywell Street, yr hwn a gafodd allan, i'w syndod, nad oedd un Mr. Francis yn byw yno, ond Mr. W. R. Francis Gawthorn, ac nad oedd hwnw gartref. Galwodd yno yr ailwaith, pan y cafodd lythyr i'r bonheddig a ddaeth oddiwrth Dr. Sumner (nid yw'r Pabyddion yn ei gydnabod yn arch-esgob).

Yn y llythyr hwnw y mae Mr. W. R. Francis Gawthorn, yn proffesu ei hun yn Babydd ; dywed iddo arwyddo ei hun yn "Francis" rhag ofn i'r arch-esgob gael allan mai Pabydd ydoedd ; ei fod ef wedi dangos llythyr yr arch-esgob i "gyfeillion personol, am droedigaeth pa rai yr oedd ef yn dra awyddus ;" ac fel pe bai ganddo rith y gydwybod ychwanega, os oedd eraill yn eu gyhuddo o wneuthur drwg fel y del daioni, ei fod ef yn teimlo yn ddieuog.

Ymddengys ddarfod i'r un gwr, yn Ebrill, 1850, anfon llythyr at esgob Llundain, dan yr enw W. Rees ; ac yn mhen dau ddiwrnod wedi'n at offeiriad St. Margaret, Westminster, dan yr enw W. Rees Francis Gawthorn, gyda'r un amcan dichellgar. Dyma *Jesuit* drwyddo. Yr oedd ganddo gynifer o broffesiadau ag a gymerai o enwau arno.

Ymneilldnwr yn ddiweddar, y mae yn awr yn perthyn i'r Eglwys sefydledig. Wrth bob tebygolrwydd Pabydd ydoedd trwy'r cwbl. Ni fuaswn wedi cymmeryd cymaint o sylw o'r twyllwr di-gywilydd hwn, oni buasai fod y newyddiaduron Pabaidd wedi cyfiawnhâu a chlodfori ei ymddygiad dichell-

gar ; a thrwy hyny cymmeryd arnynt i gynnal yr egwyddor ffiaidd honno, " fod yr amcan yn cyfiawnhau'r moddion ; " a'r amcan hwnw, fel y mae'n arferol pan y dilynir y fath egwyddor, yn un a elwir yn amcan crefyddol ; ond mewn gwirionedd un eglwysig ydyw, ac yn anfynych iawn yn amcan moesol neu ddaionus.

Yr amcan mewn golwg ydoedd, dangos gymaint mwy penderfynol yw honiadau eglwysig Rhufain yn y matter yma o urddau offeiriadol, a'u rhagoriaeth, mewn cysondeb os nad haerllugrwydd, ar yr haelfrydedd hanerog a broffesir gan Eglwys Loegr, yn ôl esboniad ei harch-esgob. Mae Eglwys Loegr, rhaid dywedyd, yn hyn o beth, fel ymron yn mhob pwngc arall o gydmariaeth a Rhufain, yn agored i'r cyhuddiad o fod yn dal mesurau ac egwyddorion hanerog. Y mae hi yn cydnabod digonoldeb yr urddau Pabaidd, beth bynag am dyb yr arch-esgob ynghylch urddau nad ydynt esgobawl ; tra y mae'r Eglwys Babaidd, trwy bob trwch, yn haeru yn bendant nad oes unrhyw urddau pa bynag yn awdurdodol ond yr eiddi ei hun. Chwenychai y blaid Buseyaidd yn ein Heglwys sefydledig, allu gwneud y cyffelyb honiadau haerllug. Ond y mae synwyr a llais y wlad yn eu herbyn. Pa fodd bynag llwyddodd y dichellion Pabaidd i adnewyddu y cynhwrf yn yr Eglwys. Y mae Dr. Elliot, Dëon Bristol, yn ddiweddar wedi tynu sylw, ac ennill cymeradwyaeth lawer trwy ei ymresymiadau nerthol, yn dangos fod y fath honiadau yn ddisail, yn anghristnogol ac yn anghyson a Phrotestaniaeth. Oddiwrth yr ymraniad yma sydd o'i mewn, fe welir nad yw sefyllfa bresennol yr Eglwys sefydledig, nac un peth na'r llall. Y mae'n dwyn ar gof yr hen ddiareb, *Rhwng y ddwy-stol, i'r llawr.*

Yr wyf o'r farn y bydd i ddarllenwyr yr *Ymofynydd* gytuno a mi i edrych ar yr honiadau uchod o barth urddau offeiriadol, gyda diystyrwch dyledus ; os nad gyda gofid calon, wrth feddwl fod cymaint o ddirywiad wedi cymeryd lle, a'r fath ymadawiad oddiwrth burdeb a symlrwydd crefydd Iesu Grist. Ryw bryd arall os bydd hamdden, ac os cedwir yr *Ymofynydd* ar ei draed, mi ddeisyfaf gennad i roddi fy ngolygiadau ar y pwngc o Urddau Offeiriadol yn fwy helaeth, ac mor drefnus ag y gallwyf. Mae'r testun yn dwyn perthynas agos â rhyddid crefyddol, ac a natur ac effeithioldeb yr oruchwyliaeth honno a dygwyd i mewn trwy ein Harglwydd Iesu Grist, yr hon sy'n dwyn iechydwriaeth i bob gwir grediniwr, ac i bob un ar ei ben ei hun, heb ymddibynu ar gyfryngwriaeth offeiriaid yn y gweinyddiad o'i hordinadau. Ond rhaid i mi yn awr derfynu. Yr eiddoch, &c.,

PHILALETHES.

CARREG Y PHILOSOPHYDD.—Y chwedl a aeth allan am *Cosmo di Medicis*, ardderchog Dduc Tuscany (oblegid ei aruthr olud), ei fod wedi cael allan garreg y philosophydd, neu'r gelfyddyd o droi mettel lygredig yn aur. Gwedi clywed hyn, Pendefig urddasol o Venice, a ddaeth atto ryw ddiwrnod, gan osod yr holiad yn dêg o'i flaen, ac a ofynodd i'r Duc, a oedd efe wedi cael carreg y philosophydd, ai nid oedd? " Fy nghyfaill, "ebe'r Duc," myfi a'i cefais ; ac oblegid bod gennyf barch i ti myfi a roddaf i't ysgrifen cyfarwyddyd am dani mewn ychydig eiriau :—1, Nid wyf byth yn ceisio gan arall wneuthur un peth a allwyf ei wneuthur fy hun. 2,—Nid wyf byth yu oedi hyd y foru yr hyn a ellir ei wneuthur heddyw. 3,—Nid wyf chwaith byth yn tybied unrhyw beth mor ddi-ystyr ag na haeddai gymmeryd sylw arno." Yna y Pendefig a ddiolchodd i'w radlawn fawrhydi am ei gyfrinach ; ac wrth ddilyn ei reolau, a ddaeth yn berchen golud mawr.

DARNAU ERAILL O'I WAITH.

EMYN V.

Emyn Prydnawn.

Am danaf a'i dywyllwch mawr
Mae'r nos yn awr yn caead;
O gwel fy Nuw'r galluog Fôd
Lle'r wyf yn dyfod attad.

Ai dydd ai nos, 'rwyt ti 'mhob mann,
Ni fyddaf wann fy ngobaith;
Mi wn dy fod, fy nefol Ri,
Fyth gyda mi'n gydymaith.

Er colli golau'r ddaear honn
A chae 'ngolygon hefyd;
O gâd i'm enaid gyda thi
Fwynhâu goleuni'r bywyd.

Rhag pydiau'r daearoldeb mawr
Y sydd bob awr am danaf,
I law dy gariad sy'n ddi baid;
Fy nghorph a'm enaid rhoddaf.

Dan rwymau cwsg yn efrydd gwann,
Gorweddaf dan dy nodded;
Bydd gyda mi'r galluog Nâf,
Ac ynod eâf amwared.

Nos angau cyn bo hir a ddaw,
Bydd di ger llaw'n flaenorol,
I'm arwain draw drwy lwngc y bedd
I fyd yr Hedd trag'wyddol.

EMYN VI.

Arall.

Mae'r tywyllwch yn dychwelyd,
Nos yn llanw yr wybren fawr,
Duw! di wyddost pwy a gyfyd
I fwynhâu goleuni'r wawr;
Pwy mewn bywyd pan adferi
Ddydd yn ol i'r ddaear honn,
Pwy'n y farn cyn awr goleuni,
Beth ei gyflwr ger dy fronn.

Tra bo'r nos yn dew am danaf
Yn dywyllwch dros y byd,
Rhwymau cwsg yn drymion arnaf,
A'm synhwyrau'n feirw i gyd;
Mae fy nghred a'm gobaith arnad
Cyfaill cywir wyd i mi,
Digon fyth i mi dy gariad;
Gwynfyd nef i'm enaid i.

Er tywyllwch nos daearol
Er pob niwl o'm amgylch i,
Yng ngoleuni'r bywyd nefol
Bwyf a'm enaid gyda thi.
Gorwedd wyf dan gysgod angau
Ar bob llaw pydoldeb maith;
Af er hynn, âf yn ddiammau,
Dan dy nawdd i benn fy nhaith.

EMYN VII.

Arall.

Mae'r golau'n wann, aeth haul i lawr,
Syrth nôs am benn y byd yn awr;
Daw cwsg ar fyr, a phawb a'i gwyr,
I'n gorfod a'n dirymmu'n llwyr.
Pa wilgar nerth a'n ceidw yn fyw
Ond gofal y trugarog Dduw?
Pa gariad ond ei gariad ef?
Y Câr diffuant sy'n y nef.

Un llygad yn ein gwilio sydd,
Un yw ni chwsg na nos na dydd;
O'n cylch i'n gwared y mae ef.
Yn rhoi myrddiynau teyrnas nef,
Dan nawdd yr hollalluog Ner
Gorphwyswn mewn tangnefedd per;
Dan olwg yr anfeidrol Fod,
Ni'n drygir fyth, byth iddo'r clôd.

[Mae'n darllenwyr ond odid yn cofio bod yr emynau uchod, fel y rhai blaenorol, wedi bod mewn argraff o'r blaen, mewn llyfryn nas cyfarfyddir ag ef yn awr ond yn anaml iawn. Yr y'm ni yn ddyledus am danynt i garedigrwydd cyfaill. Os ydym yn cofio yn iawn yr oedd y llyfryn yn cynnwys dwy ffurf o weddi, i'w harfer gan ddynion ieuainge, fore a hwyr. Gobeithio y'n galluogir i'w rhoddi ar fyr yn yr *Ymofynydd*. Yr y'm o'r farn y byddai cyhoeddiad o "ffurfiau gweddi" ar gyffelyb gynllun, i'w harfer mewn teuluoedd a chan ddynion ieuainge, o ddefnydd a lles mawr yn ein dyddiau ni. Yr oedd IOLO yn teimlo yn gryf dros ddefnyddio ffurf o weddi. Yr oedd efe ei hun (fel y mynegodd i ni) yn arfer y ffurf o Weddi Gyffredin, wedi ei diwygio gan Dr. Clarke; yr hon ffurf sydd mewn arferiad gan yr Eglwys Undodaidd yn *Essex Street*, Llundain, oddiar amser THEOPHILUS LINDSEY.—GOL.]

DUWDOD CRIST.—Llythyr XIII.

ei hollalluawgrwydd.

Mat. xxviii. 18,—"A'r Iesu a ddaeth ac a lefarodd wrthynt, gan ddywedyd, rhoddwyd i mi *bob awdurdod* yn y nef ac ar y ddaear."

Yr Argument Drindodaidd.—"A ydyw ef ddim yn y modd llawnaf yn haeru ei dduwdod a'i gydraddolrwydd a'r Tad, trwy honni hawl i, a meddu yr *holl* awdurdod yn y nef ac ar y ddaear?"—*Adam Clarke.*

Nac ydyw, Dr. Clarke, nac ydyw, yn sicr; oblegid y mae Iesu Grist yn dywedyd yn bendant, mai'r Tad ddarfu *roddi* iddo yr awdurdod a sonir am dani yma, beth bynag a feddylir wrthi. Ac mor amlwg a hynny yw, mai yr hyn a ellid ei roddi a dderbyniodd Crist; ond peth yw hollalluogrwydd nas gellir ei roddi i neb. Ac os oedd Iesu yn Dduw, nis gallasai dderbyn dim chwaith nad oedd ganddo yn barod. Nis gellir ychwanegu dim at berffeithrwydd dwyfol. Y mae anhawsdra arall hefyd yn cyfodi oddiwrth gymmeryd y geiriau uchod yn eu hystyr lythyrenol, sef, os darfu i'r Tad roddi i'r Mab *bob* awdurdod yn y nef ac ar y ddaear, yn ystyr helaethaf y geiriau, yna nid oes dim awdurdod ym meddiant y Tad ei hun, na'r Yspryd Glân chwaith!! Ond ni fydd un trindodwr, feddyliaf, yn foddlon i hyn, ac felly y mae yn rhaid cymmeryd yr ymadrodd "*pob awdurdod,*" mewn ystyr gyfyngedig, fel y mae yn rhaid cymmeryd y cyfryw ymadroddion yn fynych yn yr Ysgrythyrau, fel y gwelir oddiwrth y difyniadau canlynol:— 1 Cor. vi. 12,—"*Pob peth* sydd gyfreithlon i mi, ond nid yw pob peth yn lleshau." Er hynny, nid cyfreithlon i'r apostol, ladd, lledratta, godinebu, &c. Phil. iv. 13,—Yr wyf yn GALLU POB PETH trwy Grist yr hwn sydd yn fy nerthu i." Wrth swn y llythyren yma y mae Paul yn amlwg yn honni hawl i hollalluawgrwydd. Os dywedir mai un arall oedd yn nerthu Paul; dyna fy atteb innau yn gymmwys i'r rhai a gasglant hollalluawgrwydd Crist oddiwrth yr adnod uchod, sef, mai un arall roddodd bob awdurdod i'r Iesu. 1 Tim. vi. 17,—"Ac na obeithiont mewn golud anwadal, ond yn y Duw byw, yr hwn sydd yn helaeth yn rhoddi i ni *bob peth* i'w mwynhau." 1 Titus i. 15,—"Pur yn ddiau yw pob peth i'r rhai pur." Mat. iii. 5,—"Yna yr aeth allan atto ef *Jerusalem* a *holl* Judea, a'r *holl* wlad o amgylch yr Iorddonen." xvii. 11,—"Elias yn wir a ddaw yn gyntaf ac a edfryd BOB PETH." Ioan iii. 26,—"Wele y mae hwnnw yn bedyddio a *phawb* yn dyfod atto ef." iv. 25,—"Y wraig a ddywedodd wrtho, mi a wn fod y Messias yn dyfod, yr hwn a elwir Crist; pan ddelo hwnnw, efe a fynega i ni *bob peth.*

Y mae'r ymadrodd pob peth yn cael ei gyfyngu yn aml i'r hyn a berthyn i'r oruchwiliaeth Gristnogol. Ioan xv. 15,—"Oblegid *pob peth* ar y glywais gan fy Nhad, a hyspysais i chwi." 2 Cor. v. 17,—"Gan hynny od oes neb yng Nghrist y mae efe yn greadur newydd; yr hen bethau a aethant heibio; ac wele gwnaethpwyd *pob peth* o'r newydd." xiv. 26,—"Eithr y diddanydd, yr Yspryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi yr *holl bethau,* ac a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau a *ddywedais* i chwi." xvi.—"Efe (yr Yspryd Glân) a'ch tywys i bob *gwirionedd.*" Eph. i. 8,—"Trwy yr hwn y bu efe helaeth i ni *ymhob doethineb a deall.*" 2 Pedr i. 3,—"Megis y rhoddes ei dduwiol allu ef i ni *bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb.*" Ië, pob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb, ddarfu i'r

Apostolion dderbyn, ac awdurdod i roddi y pob peth hyn ddarfu i'r Iesu dderbyn gan ei Dad. Derbyniodd bob awdurdod angenrheidiol i daeñu a sicrhau'r gwirionedd ymhlith Iuddewon a Chenhedloedd, neu yn y nef ac ar y ddaear, i gyfodi'r meirw, a rhoddi i bob un yn ol ei weithred. Y mae hyn yn berffaith gyson a'r hyn a ddywedodd yr Iesu am dano ei hun:—"Y mae fy Nhad yn fwy na myfi." A thrachefn, "Y Mab ni all wneuthur dim o hono ei hun." Ond trwy'r awdurdod a *dderbyniodd* y mae'r Iesu yn alluog i fod yn farnwr, ac i addasu eraill i'r gwaith mawr o oleuo, dynolryw trwy gyfranu i'w Apostolion yr un awdurdod a dderbynodd ef ei hun. "Fel yr anfonodd y Tad fi, felly yr anfonais innau chwithau i'r byd," medd Crist.

Rosenmuller.—[Rhoddwyd i mi bob awdurdod]. "Hynny yw, gallu i lywodraethu meddyliau dynion trwy fy nysgeidiaeth, ac i achosi fy nghrefydd i gael ei thaenu i bob lle."

Michaelis.—"Mae'n amlwg nad yw hyn ddim yn perthyn ond i deyrnas ysprydol Crist."

Williams.—Mae'n rhaid fod hyn yn cyfeirio at yr awdurdod dirprwyol a roddwyd i'r Messiah, yr hyn oedd wobr ei dioddefaint, a sail ei awdurdod fel brenhin ei eglwys." Felly, hefyd, *Prof. Stuart.*

Yr adnod nesaf yw Ioan v. 19, "Canys beth bynnag y mae efe [y Tad], yn ei wneuthur, *hynny hefyd* y mae y Mab *yr un ffunud* yn ei wneuthur."

Y mae Mr. Bagot yn dywedyd y byddai y geiriau hyn yn gabledd yngenau un bod crëedig a meidrol.

Er hynny pwy bynnag a gymmer y drafferth i ddarllen yr adnod i gyd a wel mai o enau bod meidrol y daethant. "Yna yr Iesu a attebodd ac a ddywedodd wrthynt, Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, ni ddichon y Mab *wneuthur dim o hono ei hunan*, eithr yr hyn a *welo* efe y Tad yn ei wneuthur; canys beth bynnag y mae efe yn ei wneuthur, hynny hefyd y mae y Mab yr un ffunud yn ei wneuthur; canys y Tad sydd yn *caru'r* Mab, ac yn *dangos* iddo yr hyn oll y mae efe yn ei wneuthur: ac a efe a *ddengys* iddo weithredoedd *mwy* na'r rhai hyn, fel y rhyfeddoch chwi." Yr hyn oedd ef yn *weled* gan y Tad, yr hyn oedd y Tad yn ddangos iddo, oedd Crist yn wneuthur. Y mae'r gair *deiknusin*, dangos, yma yr gyfystyr ag awdurdodi, neu gyfranu gallu i gyflawni'r gweithredoedd crybwylledig. Gwel Schleusner's Lex. in Nov. Test. sub voce *deiknuo* § 6, lle y dywed ar yr adnod dan sylw, "Efe a gyfrannodd iddo allu i wneuthur yr holl wyrthiau a wnaeth, a mwy na'r rhai hynny hefyd." Felly y Tad oedd yn dangos neu yn galluogi yr Iesu, i gyflawni yr holl weithredoedd nerthol a wnaeth. A fyddai y fath iaith ddim yn gabledd i'w harfer am y Tad? Na all ef wneuthur dim o hono ei hunan, ond yr hyn a welo efe y Mab yn wneuthur, a'r hyn y mae y Mab yn ddangos iddo, neu yn ei awdurdodi i gyflawni. Ynfydrwyd! Cabledd!! *Cujus mentio est refutatio.*

Kuinöel.—"Nid wyf yn ymadael ag ewyllys, a chynllun fy Nhad; yn fy llafur dros ddaioni dyn, yr wyf yn canlyn ac efelychu esiampl y duwdod." Cyffelyb hefyd yw sylwadau Grotius, Whitby, a Rosenmuller. Yr adnodau nesaf yw

2 Petr i. 2, 3.—"Gras i chwi a thangnefedd a amlhair, trwy adnabod Duw a Iesu ein Harglwydd ni, megis y rhoddes ei *dduwiol allu* ef i ni bob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb, trwy ei adnabod ef yr hwn a'n galwodd ni i ogoniant a rhinwedd."

Yr Argument Drindodaidd.—"Yn 2 Petr i. 3, y mae gallu dwyfol (*theia dunamis*) yn cael ei briodoli i Grist"—*Prof. Stuart.*

Y mae pawb Cristnogion yn credu mai trwy allu dwyfol y darfu i'n Harglwydd Iesu Grist wneuthur gwyrthiau, neu yn hytrach, mai gallu dwyfol oedd yn eu gwneuthur trwyddo ef. Nis gallasai yr Iesu, mwy na rhyw ddyn arall, wneuthur y fath weithredoedd o hono ei hun. Y mae ef yn eglur ar y pen hwn: "Yn wir, yn wir, meddaf i chwi, ni ddichon y Mab wneuthur dim o hono ei hunan. Ni allaf fi wneuthur dim o honof fy hunan, medd ef drachefn. Y mae fy Nhad yn fwy na myfi. Ac felly y tystia Petr hefyd, Act. ii. 22, 23, 24, 36.—"Ha wyr Israel, clywch y geiriau hyn: Iesu o Nazareth, gwr (dyn) *profedig* gan Dduw, yn eich plith chwi, trwy nerthoedd a rhyfeddodau, y rhai a *wnaeth Duw* trwyddo ef yn eich canol chwi, megis ag y gwyddoch chwithau. Hwn wedi ei *roddi* trwy ragderfynedig gynghor a rhagwybodaeth Duw, a gymmerasoch chwi, a thrwy ddwylaw anwir a *groeshoeliasoch* ac a *laddasoch*: yr hwn a gyfododd *Duw*, gan ryddhau gofidiau angau * * * Am hynny gwybydded holl dŷ Israel yn ddiogel ddarfod i Dduw *wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist* yr Iesu hwn a groeshoeliasoch chwi." iii. 13.—Duw Abraham, ac Isaac a Jacob, Duw ein tadau ni a *ogoneddodd* ei fab Iesu, yr hwn a draddodasoch chwi: adn. 15.—"A thywysog y *bywyd* a *laddasoch*, yr hwn a gododd *Duw* o feirw." Gwel hefyd Act. iv. 10; v. 30, 31; x. 31, 40, 42. "Y modd yr enneiniodd Duw Iesu o Nazareth a'r Yspryd Glân ac a nerth;" dyma'r gallu dwyfol oedd gan yr Iesu. Felly, nid yw yn bossibl fod Petr yn ei lythyr yn crocsi yr hyn a ddywedodd ef ei hun am yr Iesu yn yr Actau, a'r hyn hefyd a ddywedodd ei Feistr am dano ei hun o'i flaen ef; nac ydyw, eithr y mae ef, hyd yn oed yma, yn gwahaniaethu Crist oddiwrth Dduw yn ddigon amlwg. Trwy adnabod Duw a Iesu Grist, ebe fe. Ac y mae Petr hefyd yn arfer gair cryfach byth am y Cristnogion, fel na fyddai i ni gael ein dallu gan eiriau; yn y 4edd adnod y mae'n dywedyd, "Trwy yr hyn y rhoddwyd i ni addewidion mawr iawn a gwerthfawr; fel trwy hyn y byddech gyfranogion o'r *duwiol anian*," *divine nature*, Groeg, theias phuseôs, *y natur dwyfol*; felly hefyd y Syriac, *shawthophio dakiono olohoio*, cyfranogion o'r natur neu'r hanfod ddwyfol: ystyr y gair *kiono*, medd Gutbirius yn ei *Syriac Lex.* yw *natura, essentia*, nattur, hanfod, neu sylwedd. Felly hefyd Diodati yn ei gyfieithiad Italaidd: *acciocche per esse voi siate fatti participi della natura divina*, cyfranogion o'r natur ddwyfol. Felly os yw Crist yn Dduw oherwydd fod duwiol allu yn cael ei briodoli iddo, yr oedd y Cristnogion hefyd yn dduwiau, gan eu bod yn gyfranogion o'r nattur dwyfol. Ond fel y dywedais ar y dechreu, nid oes amheuaeth ynghylch dwyfoldeb y gallu a wnaeth y gwyrthiau trwy'r Iesu, ac nid oes amheuaeth chwaith ynghylch dwyfoldeb y gallu a wnaeth wyrthiau trwy Paul, Petr ac eraill o'r Apostolion; ond y cwestiwn mewn dadl yw p'un ai'r Tad oedd yn galluogi yr Iesu i wneuthur y cyfryw weithredoedd, neu efe oedd yn eu cyflawni hwynt o hono ei hun. Y mae'r Iesu yn ymwadu yn hollol a'r olaf, fel y gwelsom eisioes, ac y mae'n dangos mor eglur a hynny, gallu pwy oedd yn eu cyflawni hwynt. "Y Tad yr hwn sydd yn aros ynof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd." Dyma'r gallu dwyfol oedd gyda neu yn yr Iesu.

Y mae'r ymadrodd, dduwiol allu, yn cael ei ddeall am y Tad gan Estius, Grotius, Bengel, Baxter, Macknight ag eraill, a minau yn eu plith.

CREADIGAETH.

Ioan i. 3, 10,—"Trwyddo ef y *gwnaethpwyd* pob peth, ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim ar a wnaethpwyd." Yn y byd yr oedd efe, a'r byd a wnaethpwyd trwyddo, a'r byd nid adnabu ef."

Y mae *Dr. Hawker* yn dywedyd fod Efengyl Ioan, yr hwn sydd yn gosod allan raghanfod Crist, yn llefaru am dano ar y pryd fel Creawdwr y bedyssawd; ac nas gall geiriau ddwyn tystiolaeth byth mwy llawn i allu Crist, na'r gweithredoedd a briodolir iddo yma yn amlwg.

Ond mewn attebiad i hyn yr wyf yn sylwi, ei bod yn amlwg oddiwrth aneirif fannau yn yr Hen Destament, mai'r Jehovah, Duw ei hunan, yn *ddigyfrwng*, a greodd y nefoedd a'r ddaear, a'r hyn oll sydd ynddynt; y moroedd a'r hyn oll sydd ynddynt. Gen. i. 3,—"A Duw a ddywedodd bydded goleuni, a goleuni a fu—Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear." Ps. xix.—"Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sy'n mynegu *gwaith* ei ddwylaw ef." xxxiii. 6,—9—"Trwy *air* yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd, a'u holl luoedd hwy trwy yspryd ei enau ef; casglu y mae *efe* ddyfroedd y môr ynghyd, megis pentwr * * * Ofned yr holl ddaear yr Arglwydd; holl drigolion byd arswydant ef—canys *efe* a ddywedodd, ac felly y bu—*efe* a orchmynodd, a *hynny* a safodd." xcv. 5, —"Y mor sydd eiddo, ac *efe* a'i gwnaeth; a'i ddwylaw a luniasant y sych dir." Isaiah xliv, 24,—"Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd dy waredydd, a'r hwn a'th luniodd o'r groth, Myfi yw yr Arglwydd sydd yn gwneuthur *pob peth*, yn estyn y nefoedd *fy hunan*, yn lledu y ddaear o *honof fy hun*." Gwel ymhellach, Isaiah xl. 12—29; xlv. 12—18. Ynghyd ag amrywiol fannau eraill yr un mor gadarn.

Mae iaith y Testament Newydd etto yr un mor gadarn. Act iv. 24—30, —"O Arglwydd, tydi yw y Duw byw, yr hwn a wnaethost y NEF a'r ddaear, a'r môr a'r *hyn oll* sydd ynddynt. Canys mewn gwirionedd yn y ddinas hon yr ymgynullodd yn erbyn dy sanct Fab Iesu, &c." Felly, Mab yr hwn sydd wedi creu nef a daear yw Iesu yma, ac *nid* y Creawdwr Mawr ei hun. xvii. 24,—"Y Duw a wnaeth y byd, a phob peth sydd ynddo, ac efe a wnaeth o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswylio ar holl wyneb y ddaear (adn. 31), oherwydd iddo osod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder trwy y gwr, dyn, a ordeiniodd EFE." Duw yw'r crëwr yma etto, ac nid y dyn a ordeiniodd efe i farnu'r byd. Y mae'n amlwg oddiwrth yr ysgrythyrau mai Duw yw'r unig Greawdwr, mai Tad Iesu ac nid Iesu greodd y byd sylweddol, a phob peth sydd ynddo.

Gan fod hyn yn amlwg ynte, mai Duw ei hun, a'i air ei hun, a'i ddwylaw ei hunan sydd wedi creu y cyfan oll; eglur yw, hefyd, os mai Iesu Grist sydd i ni ddeall wrth y *gair* neu'r *logos* yn y bennod gyntaf o Ioan, trwy yr hwn y gwnaethpwyd pob peth, mai y greadigaeth newydd sydd i ni ddeall. Ac efe oedd yr offeryn yn llaw Duw i ddwyn hon ymlaen. Ond gwell gennyf fi feddwl Priestley, yr hwn a dybia mai doethineb Duw ei hun sydd i feddwl wrth y *gair* neu'r *logos* yma, mewn gwrthwynebiad i'r rhai a briodolent greadigaeth y byd sylweddol i îs-dduw. Y mae Ioan yn dywedyd mai Duw ei hun wnaeth y cyfan oll. Y Duw a ddywedodd bydded goleuni, a goleuni a fu; trwy *air* yr hwn a gwnaethpwyd y nefoedd a'u holl lluoedd hwynt trwy yspryd ei enau ef; ie efe yr hwn trwy *ddoethineb* a seiliodd y ddaear, a thrwy ddeall a sierhaodd y nefoedd, trwy ei wybodaeth ef yr holltwyd y dyfnderau, ac y defnyna'r wybrenau wlith; mai y Gair hwn, doethineb Duw,

yr hwn a greodd y byd a ddaeth yn gnawd, a ymddangosodd yng nghnawd Iesu; mawr yw dirgelwch duwioldeb yr hwn a ymddangosodd yn y cnawd. "A'r gair a wnaethpwyd yn gnawd, neu a ddaeth yn y cnawd, ac a drigodd yn ein plith ni. Y gair a ddywedodd bydded goleuni, a dywedodd hefyd trwy'r cnawd, wrth y marw, "Tyred allan," a Lazarus a neidiodd yn fyw. Hwn, y gair, y Tad yr hwn oedd yn aros yn yr Iesu, efe oedd yn gwneuthur y gweithredoedd yn ol tystiolaeth eglur, a di-droi-'nol, o eiddo'r Iesu ei hun: "Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru; ond y *Tad* yr hwn sydd yn aros ynnof, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd.

Y mae Simpson, yr hwn sydd yn esbonio'r geiriau mewn dadl am y greadigaeth newydd, yn dywedyd fod y gair *ginomai*, a gyfieithir yma gwnaethpwyd, yn cael ei arfer 680 o weithiau yn y Testament Newydd, ac nas gall gael allan ei fod yn cael ei arfer gymmaint ag unwaith gan Ioan am greadigaeth ddechreuol a phriodol.

Y mae Le Clerc, Tindal, a Champbell, yn meddwl mai doethineb Duw sydd i ni ddeall wrth yr *ef* yma.

Mitford.—"Yng nghwrs pedair adnod ar ddeg y mae un gair, a ddigwydd chwech gwaith, yn cael ei osod allan gan dri ymadrodd gwahanol. Y mae'r gair hwnnw *(egeneto)* a arferir ddwy waith yn y 3dd adnod, yn cael ei gyfieithu gan y geiriau "a wnaethpwyd, yn y 6fed adnod, "Yr oedd;" yn yr 17 "A ddaeth," o ystyr llwyr wahanol i'r ddau flaenorol." Mae'n amlwg fod y gwr hwn druan mewn trwbwl meddwl mawr ynghylch ystyr y gair gwnaethpwyd.

Dr. Wall.—"Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth. Mae St. Ioan yn arfer yr ymadrodd hwn fynychaf, sef fod Duw wedi gwneuthur pob peth trwy'r *Logos*, ac nid fod y Logos wedi gwneuthur pob peth."

Principal Hill.—yn ymresymu yn hirfaith i ddangos y gallasai gallu digonol i greu, gael ei roddi i arall, heb fod hwnnw oherwydd hynny yn Dduw. Gan fod gallu i gyfodi'r marw trwy ddywedyd gair, wedi ei gyfranu i'r Apostolion; gallu ymhell uwchlaw gallu dyn; ac nas gellir, heb ryfyg, ddywedyd faint all Duw gyfranu o'i allu i ddyn. Ni a adawn hyn etto, ac a awn at

Eph. iii. 9.—"Ac i egluro beth yw cymdeithas y dirgelwch, yr hwn oedd guddiedig er dechreuad y byd yn Nuw, yr hwn a greodd bob peth [trwy Iesu Grist].

Yr Argument Drindodaidd.—"I ddefnyddio geiriau Chandler, 'Gan fod yr ymadrodd yma yn gyffredinol,'—a greodd *pob peth*, nid wyf yn canfod un rheswm pam y dylai gael ei gyfyngu i'r greadigaeth newydd yn unig, gan ei bod yn sicr fod Duw wedi creu y nefoedd a'r ddaear trwy Iesu Grist, yn gystal a'r Eglwys Gristnogol."—*Geo. Holden.*

Y mae'r geiriau "trwy Iesu Grist," sydd rhwng cromfachau, yn cael eu gwrthod gan Griesbach; Testament y Bedyddwyr; y *Syriac Version*, a sicr yw nad ydynt mewn un llaw-ysgrif hen ar gael hyd yn hyn. Felly ar y tir hyn, tir lled ddiogel, debygaf, nid oes yr anhawsdra lleiaf ar ffordd yr Undodwr. A phe buasai y geiriau yma yn rhan o'r testun, hawdd fyddai eu hesbonio yn llwyr gysson ag undodiaeth, gan ei bod yn amlwg oddiwrth y llythyr hwn mai'r greadigaeth newydd a feddylir. ii. 10.—"Canys ei *waith* ef ydym, wedi ein *creu* yng Nghrist Iesu i *weithredoedd da*; adn. 15. Ac a ddiddymodd trwy ei gnawd ei hun y gelyniaeth, sef deddf y gorchymynion

mewn ordinhadau, fel y *creai* y ddau ynddo ei hun, yn *un dyn newydd*, gan wneuthur heddwch. i. 10.—Fel y gallai grynhoi ynghyd yng Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd (Iuddewon), ac ar y ddaear (cenhedloedd) ynddo ef. iv. 23, 24—"Ac ymadnewyddu yn yspryd eich meddwl, a gwisgo y *dyn newydd*, yr hwn yn ol Duw a *grewyd* mewn cyfiawnder a gwir sanct-eiddrwydd." Felly gan fod yr Apostol yn sôn am y greadigaeth newydd o flaen ac ar ol yr adnod dan sylw, ai nid teg y casgliad, mai y greadigaeth newydd sydd ganddo mewn golwg yma hefyd? Ond gan nad yw'r geiriau "trwy Iesu Grist," yn rhan o'r testun, nid oes angen wrth ragor na'u gadael allan fel y dylid.

Principal Hill.—"Nid yw'r geiriau 'trwy Iesu Grist,' i'w cael mewn un llaw-ysgrif hen, ac nid ydynt yn cael eu difynu gan neb o'r ysgrifenwyr Cristnogol cyn cymanfa Nicea."

Y mae *Adam Clarke* a *Prof. White* yn dywedyd eu bod tuhwnt i amheuaeth yn ffugiol.

Calvin.—"Dylai yr ymadrodd hwn gael ei ddehongli am adnewyddiad ysprydol, yn hyttrach na'r greadigaeth gyntaf." Felly hefyd, amrywiol eraill; am hynny, af ymlaen at

Col. i. 16,—"Canys *trwyddo* ef y crewyd pob dim ar sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn anweledig, pa un bynnag a'i *arglwyddiaethau*, ai tywysogaethau, ai *meddiannau*; pob dim a grewyd *trwyddo* ef ac *erddo* ef."

Yr Argument Drindodaidd—"Fod yr Apostol yn desgryfio creadigaeth pob peth a elwir felly, sydd sicr, os gall geiriau wneuthur y fath beth yn sicr; ac nid oes dim yn fwy treisiol na chymhwyso'r ymadrodd at gyfansoddiad yr eglwys efangylaidd. Yr holl fedyssawd, ynghyd a'r holl fodau cynnwysedig ynddo a feddylir yn eglur."—*Dr. Boothroyd.*

Gan fod yr adnod hon yn cael ei dwyn ymlaen fel y grefaf, i brofi mai Iesu Grist yw Creawdwr pob peth, a thrwy hynny ei hollalluawgrwydd ef; ni a dalwn sylw manwl iddi.

Y mae Paul o flaen ac ar ol yr adnod yma, yn son am fendithion yr efengyl trwy Iesu Grist, neu y greadigaeth newydd: adn. 12,—15. Gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'n *gwnaeth* ni yn *gymmwys* i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni; yr hwn a'n gwaredodd ni allan o feddiant y *tywyllwch*, ac a'n symmudodd ni i *deyrnas* ei anwyl Fab * * * yr hwn yw cyntaf anedig pob *creadur*. Adn. 18,—20,—"Ac efe yw pen *corph* yr EGLWYS, efe yr hwn yw'r dechreuad, y *cyntaf anedig* oddiwrth y *meirw*, fel y byddai ef yn *blaenori* ymhob peth. Oblegid rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef." Yn awr, nis gallaf ganfod un rheswm pam y gwnai yr Apostol ddesgryfio creadigaeth natturiol ynghanol ymadroddion am y greadigaeth newydd, heb roddi un *hint* ei fod yn newid ei *subject*.

Nid yn y dull yma y gosodir Duw allan fel Creawdwr y cyfan yn yr ysgrythyrau, ac nid dyma ddull Paul ei hun chwaith. "Ti yn unig wyt Arglwydd: Ti a wnaethost y nefoedd a'r ddaear, a'u holl luoedd hwnt, y moroedd a'r hyn oll sydd ynddynt," medd y prophwyd Nehemiah. Geilw Paul y cenhedloedd i droi at y Duw hyn, "yr hwn a wnaeth *nef a daear*, a'r mor a'r holl bethau sydd ynddynt; gan wneuthur daioni a rhoddi gwlaw o'r nefoedd i ni, a thymorau ffrwythlon, a llenwi ein calonau ni a lluniaeth ac a llawenydd. Y Duw a wnaeth y byd a phob peth sydd ynddo; ac a wnaeth o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswylio ar holl wyneb y

ddaear." Dywed Paul hefyd, "mai yn y Duw hwn yr ydym yn byw yn ymsymud a bod, ac y bydd iddo farnu'r byd trwy'r gwr a ordeiniodd efe." Y mae gwahaniaeth amlwg rhwng y Duw a greodd bob peth, a'r *gwr a ordeiniodd efe*. Yn yr adnod dan sylw, nid yw Paul yn dywedyd fod y *nefoedd* a'r *ddaear* wedi eu creu trwy Iesu Grist, ond fob dim sydd *yn* y nefoedd ac *ar* y ddaear. A phe byddai Paul yn meddwl creadigaeth natturiol, byddai felly ddau greawdwr, sef y Duw a wnaeth y byd a'r gwr a ordeiniodd efe. Mai'r greadigaeth newydd oedd gan Paul mewn golwg, a ymddengys ymhellach oddiwrth yr 20fed adnod, lle y dywed fod bob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear wedi eu cymmodi a Christ. Nid y ser a'r planedau, y pridd a'r cerrig ddim, nac angylion chwaith, ond Iuddewon a chenhedloedd. Na ryfedded y darllenydd am fod dynion yn cael eu galw yn bethau, iaith gyffredin yr ysgrythyr yw hon. Un engrhaifft neu ddwy wna'r tro i ddangos hyn. Eph. i. 10,—"Fel y gallai grynhoi ynghyd *yng Nghrist* yn holl *bethau* sydd yn y *nefoedd* ac ar y *ddaear* ynddo ef." 1 Cor. i. 27, 28, —"Eithr Duw a etholodd ffol *bethau* y byd, a gwan *bethau* y byd a etholodd efe, fel y gwaradwyddai y *pethau* cedyrn! Ac yr ydym yn darllen yn Galat iaid i Dduw gau *pob peth* dan bechod." Dynion, tuhwnt i bob amheuaeth, yw'r *pethau* hyn.

Yr ydym yn cael hefyd ei bod yn ddull cyffredin dan yr hen oruwchwiliaeth a'r newydd i osod allan gyfnewidiad meddwl a buchedd, trwy yr enw creadigaeth. Dywed Esaia fod yr Arglwydd yn creu *nefoedd newydd* a *daear newydd*; yn *creu* Jerusalem yn orfoledd, a'i phobl yn llawenydd; y mae Duw yn cael ei alw yn *Greawdydd Israel*, oblegid iddo eu gwneuthur yn bobl ddewisedig iddo ei hun. "Y bobl hyn a luniais i'm fy hun, ebe'r Arglwydd. Gan mai iaith gyffredin yr ysgrythyrau yw hon, yr oedd yn natturiol i Paul ac craill i ddefnyddio'r cyffelyb iddi, pan yn llefaru am y greadigaeth newydd. Yr Arglwydd *yn* creu peth newydd, medd Esaia.—"Od oes neb yng Nghrist, y MAE efe yn greadur (greadigaeth) newydd," medd Paul. A thrachefn "Yr hen bethau a aethant heibio, ac wele gwnaethpwyd pob peth o'r newydd." Y mae Paul yn ymbleseru i son am y greadigaeth newydd. Nid yw enwaediad na dienwaediad ddim, ond creadur, creadigaeth, newydd. Gwel Gal. vi. 15; Eph. ii. 10—18; Gal. iii. 9—11. Cadarnheir y meddwl hwn hefyd gan yr ystyriaeth, fod Iuddewon a chenhedloedd yn cael eu galw yn awl wrth yr enwau nefoedd a daear, a'u llywodraethwyr, wrth y geiriau nerthoedd y nefoedd; a dynion uchel eu breintiau, fel wedi eu cyfodi i'r nefoedd. Gwel Dan. viii. 10; Haggai ii. 21, 22; Heb. xii. 6.

Y mae'r geiriau a ddefnyddai Paul yma yn dangos mai ymadroddion cyffelybiaethol ydynt. Thrônau, arglwyddiaethau, tywysogaethau &c., geiriau yn dangos llywodraeth y gwirionedd, nes cyfnewid pob peth. I *frenhin* y mae thrôn yn perthyn; i dywysog y mae tywysogaeth yn perthyn. Crist yw'r brenhin, yr Arglwydd a'r Tywysog. Y mae Paul yn y bennod hon, o flaen y geiriau dan sylw, yn sôn am *deyrnas* Crist, ac am ddynion yn cael eu symmud o *dywyllwch* i'r deyrnas hon; (adn. 13). O'r blaen yr oeddent yn y tywyllwch, tywyllwch anwybodaeth; yn awr y maent yn nheyrnas Crist, yn y goleuni. Wedi son am *deyrnas* Crist, yr oedd yn natturiol i Paul i ddilyn y gyffelybiaeth, a sôn am yr hyn oedd yn perthyn i deyrnas, sef thronau, arglwyddiaethau a thywysogaethau, i ddangos fod hen deyrnas y tywyllwch a'u holl swyddi i ddarfod, a theyrnas newydd y goleuni a'i swyddi

newyddion i gymmeryd eu lle. Y mae gennym y sail oreu yn y byd i farnu beth yw nattur y deyrnas newydd a'i thronau hefyd: nid teyrnas y byd hwn oedd, medd tywysog y bywyd ei hun. Fy mrenhiniaeth i, medd ef wrth Pilat, nid yw o'r byd hwn: ac nid o'r byd hwn oedd ei thronau, ei harglwyddiaethau, na'i thywysogaethau chwaith, y rhai a wnaethpwyd trwy yr Iesu. O nage, yn wir. Pam yr ofer-siarada dynion ynte, ac yr haerant, yng ngwyneb iaith mor oleu a hon, fod a fynno Crist a phridd a cherrig, thronau natturiol, a darfodedig, gwaith dwylaw dyn? Yn y deall y mae ei thrôn ef i gael ei sefydlu, nes newid serchiadau'r galon, darostwng pob nwyd, a chreu ei ddeiliad o'r newydd, yn awyddus i weithredoedd da. O'r cyfryw y'n caer ni, ddarllenwyr anwyl. O. Evans.

A FU ST. PEDR ERIOED YN RHUFAIN?

Mr. Ymofynydd,—Mae yr ychydig resymau canlynol ar y ddadl hon, y rhai a gyfieithais o'r *News of the World* am 24 o Awst 1851, yn ddigonol i ddangos twyll y Pabyddion yn eu haeriad mai olynolion Pedr ydyw Esgobion Rhufain. Os byddwch yn barnu yr un peth a mi, rhoddwch hwynt o flaen eich darllenwyr. Ydwyf &c.,

J. Jones.

"Yr unig awdyrdod ddiogel yw geiriau yr ysgrifenwyr ysbrydoledig, Actau yr Apostolion, ac Epistolau St. Paul a St. Pedr. Mae yr ysgrifenwyr Rhufeinedd yn dywedyd fod St. Pedr wedi bod yn Esgob Rufain dros 25 mlynedd; a chan iddo farw B.A. 66 rhaid ei fod yn Esgob Rufain yn y flwyddyn 41. 'Nawr wrth edrych yn y xii bennod o Actau yr Apostolion yr ydym yn cael fod St. Pedr ym M.A. 44 yn Judea, ac iddo yno gael ei fwrw i garchar gan Herod. Yr ydoedd wedi bod dros dalm cyn hynny yn Lyda, Joppa, a Caesarea. Yn xv. yr ydym yn cael fod St. Pedr yn Judea yn y flwyddyn 52 pan yr apeliodd rhai o'r Phariseaid at yr Apostolion a'r Henyriaid yng nghylch enweidiad. 'Nawr yn y dyddiau hynny nis gallesid teithio o Rufain i Jerusalem (1200 milldir o ffordd) mor rhwydd fel y gallwn feddwl i St. Pedr fyned yn ol ac ymlaen, er mwyn bod yn bresenol yng nghyfarfod yr Apostolion, a'r Henyriaid yn Jerusalem. Ar ol iddo draddodi ei farn ni chyfeirir at St. Pedr mwyach yn yr Actau. Fe'n dysgeir yn y xviii. i'r ymerawdr Claudius anfon yr holl Iuddewon allan o Rufain yn 54. Pan yr oedd St Paul yn Jerusalem ym M. A. 60 yr ydym yn cael yn Actau xxiii. 11, i'n Iachawdwr ymddangos iddo a dywedyd fod yn rhaid iddo ef, Paul, dystiolaethu am dano ef yn Rufain. 'Nawr, pe buasai Pedr wedi bod 19 blynedd yn Esgob Rufain, (fel y mae y Rhufeinwyr yn dywedyd) yn sicr, ni fuasai eisiau tystiolaeth St. Paul yno. Mewn ufudd-dod i ddywediad ein Iachawdwr, yr ydym yn cael i St. Paul fyned i Rufain yn garcharor ym M.A. 60. Yr ydoedd cyn hynny, ym M.A. 58, wedi ysgrifenu ei lythyr "At bawb sydd yn Rhufain yn anwyl gan Duw, wedi eu galw i fod yn Saint." Mae yn dywedyd wrthynt "Yr wyf yn hiraethu am eich gweled, fel y gallwyf gyfrannu i chwi ryw ddawn ysbrydol, fel yc'h cadarnhaer, * * * fel y cawn ryw ffrwyth ynoch chwi hefyd megis ag yn y Cenhedloedd eraill * * * Felly hyd ag y mae ynof fi, parod ydwyf i bregethu yr Efengyl i chwithau hefyd y rhai ydych yn Rhufain." 'Nawr a fuasai St. Paul yn annerch y Rhufeiniaid fel hyn, pe buasai St. Pedr wedi pregethu yr

Efengyl am 17 flynedd yn y ddinas honno? Wedi i St. Paul ddyfod i Rufain ym M. A. 60, fe a "arhoes ddwy flynedd gyfan yn ei dy ardrethol ei hun, ac a dderbyniodd bawb a'r oedd yn dyfod i mewn atto gan bregethu teyrnas Dduw, ac athrawiaethu y pethau am yr Arglwydd Iesu Grist, gyda phob hyfder, yn ddiwahardd." Nid oes son am St. Pedr. Yn xv. 20, o'i lythyr at y Rhufeiniad mae St. Paul yn dywedyd,—"Ac felly gan ymorchestu i bregethu yr efengyl, nid lle yr enwid Crist; fel nad adeiladwn ar sail un arall." Mae wedi'n yn annerch ei holl gyfeillion a'i gâr Herodion wrth eu henwau. Yn sicr pe buasai St. Pedr yn Rhufain, ni fuasai yn cael ei adael allan, ond nid oes son am ei enw ef. Yn 2 Lythyr St. Paul at Timotheus, a ysgrifenwyd yn Rhufain, yr hon ddinas ydoedd ef wedi talu ail ymweliad iddi ychydig cyn ei farwolaeth, mae yn enwi pawb o'r rhai hynny oeddent wedi ei adael ef, ac y mae yn dywedyd yn bendant,—"Luc yn unig sydd gyda mi.' Mae gan hynny yn amlwg na fu St. Pedr erioed yno."

TRACHWANT AUR, A'R MWN-GLODDIAU AUR NEWYDD.

Mae trachwant aur wedi bod er ys oesoedd lawer yn ddiarhebol yn mhob gwlad. Ar rythyrau mae'r ymddangosiadau o hono wedi bod yn fwy cyffröus nag arferol. Ond ar y cyfan, mor belled ag y mae profiad ac hanes yn cyrhaedd, gyda dynion o bob oes a phob gwlad, a phob sefyllfa braidd, teimlid ei ddylanwad mwy neu lai. Beth na wnaiff aur ac arian, ond cael synwyr i'w trefnu a'u defnyddio yn iawn? A phwy mor ychydig yw y rhai sy'n meddu ar y synwyr hwnw! Etto yn anaml iawn y cyfarfyddir a dyn na fyddo yn credu am dano ei hun, ei fod ef yn meddu ar ddigon o synwyr i drefnu a thrafod rhagor o aur ac arian nag y sydd ganddo. Nid oes un cyfoeth ag a saif o flaen yr afradlon a'r oferddyn anystyriol. A dynion anonest ni ofalant am wario aur ac arian dynion eraill, yn lle yr eiddynt eu hunain.

Trwy gytundeb cyffredinol, mae aur yn cynnrychioli cyfoeth a meddiant o bob math. Fel cyfrwng er cyfnewid nwyfau *(medium of exchange)* y mae o werth a defnyddioldeb mawr. At achosion bywyd a phob ryw offer gwaith, mae rhai metteloedd eraill, megis haiarn, &c., o lawer mwy o ddefnydd. Defnyddid aur yn fore iawn i wneud tlysau, &c., i addurno gwisgoedd corphorol, a themlau, a phalasau. Ond nid ymddengys ei fod wedi bod o nemawr ddefnydd mewn ffordd arall.

Etto mae aur, fel mettel, heblaw ei brinder, yn meddu ar briodoleddau gwerthfawr eraill. Mae ei harddwch yn mron yn ddigyffelyb. Nis gall rhŵd ei lygru, ac nid yw ond yn cael ei buro a'i goethi trwy fyned trwy'r tân poethaf. Ac fe gymmer ei forthwylio i ddalenau mor deneu, fel y gellir goreuro arwynebedd helaeth am ond ychydig o bris mewn cydmariaeth.

Ond prinder y mettel hwn yn bennaf, sy'n peri fod ei bris mor uchel yn y byd masnachol. Yn ganlynol bydd pob ychwanegiad o hono, a ddelo o fewn cyrraedd masnach, yn y gwledydd gwareiddiedig, i beri gostyngiad cyfattebol yn ei bris; neu, yr hyn sydd yr un peth, bydd prisoedd pethau eraill yn cwnni. Dan y fath amgylchiad, cymmer gyfnewidiad le yn sefyllfa y gwr a roddodd a'r gwr a dderbyniodd fenthyg, parth eu perthynas a'u gilydd, a'u meddiannau: bydd y naill yn golledwr a'r llall yn enillwr. Ac aflon-

yddir trefniadau masnach i raddau cyfattebol. Mae y fath aflonyddiad ac annhrefn wedi cymeryd lle drolon eisioes, dan amgylchiadau cyffelyb, fel y tystia hanes masnach y byd. Yn y 16eg ganrif, yn fuan wedi darganfyddiad America Ddeheuol, dygwyd arian ac aur Mexico a Pheru mewn cymaint o amlder i Ewrop, fel ag i annhrefnu masnach a chwnni prisoedd pethau yn aruthr. Ac y mae rhai o ddarllenwyr yr *Ymofynydd*, ond odid, yn cofio idd eu cost, beth oedd y canlyniad, yn fuan ar ol diwedd y rhyfel â Ffrainge, pan gwnnwyd pris yr aur trwy y gyfraith a ddygodd Syr Robert Peel i mewn; p'odd y llyngcwyd tiroedd lawer gan y *mortgages* oedd arnynt; ac y gostyngwyd prisoedd pethau ymron i'r haner.

Cyffelyb gyfnewidiad (ond mai cwnni, nid gostwng fydd prisoedd) a ddisgwylir i gymeryd lle oddiwrth yr amlder o aur a fydd i gael ei ddwyn i mewn i'r farchnad, o fŵn-gloddiau *California* ac *Awstralia*. Ond na feddylied neb mai llwyddiant i gyd fydd hyny, os y cymmer le. Ni fydd y tiroedd yn fwy, na'u cynnyrch yn rhagor; ni fydd y gweithiau haiarn a glô yn dwyn rhagor na gwell nwyfau i'r farchnad o herwydd hyny; ni bydd ychwaneg o fwyd a dillad a chysuron bywyd, yn unig o herwydd bod ychwaneg o aur yn y byd. *Cynnrychioli* meddiant mae aur ac arian; nid yw yn ychwanegu atto ond mewn mesur bychan. Ac os na fydd y byd yn gyffredinol gymaint yn gyfoethocach a mwy llwyddiannus o herwydd cael ychwaneg o aur; felly ni bydd teyrnasoedd, teuluoedd, na phersonau neilldnol, oddieithr lle y digwyddo fod un yn cael mwy o ran na'r llall o hono.

Yn y chwedl-ddysg Baganaidd adroddir am un brenin o'r enw Midas, yr hwn a gwbl feddiennid gan y "trachwant aur" yma; iddo ddeisyf gan Jupiter, a chael ei ddeisyfiad, fod pob peth a gyffyrddai efe ag ef, yn y fan i droi yn aur. Druan a Midas; daeth arno ef, fel y daeth, mewn effaeth, ar ganoedd o ddynion trachwantus ar ei ol ef. Wedi gwneuthur aur lawer, maes o law daeth chwant bwyd ar Midas. Yr oedd digonedd o ddanteithion, wrth gwrs, o fewn i'w gyrraedd. Ond, o'ch! daledigaeth ofnadwy, wele yr ymborth a gymmerai efe i'w enau yn troi yn aur; ac yntau, wedi'r cyfan, yn gorfod marw o newyn! Mae'r addysg a gynnwysir yn y chwedl yn ddigon amlwg, fel nad oes eisiau ymhelaethu.

Y mae llawer yn barod i chwerthin am ben Midas, heb ystyried eu bod hwy eu hunain yn euog o'r cyffelyb ynfydrwydd. Beth bynag eu proffes, mae eu hymddygiad yn dangos, eu bod yn ammeu, os nid yn annghredu geiriau ein Harglwydd Iesu Grist; sef, "nad yw bywyd neb yn sefyll ar amlder y pethau sydd ganddo." Mor anhawdd ydyw gwahaniaethu i foddlonrwydd rhwng chwant rhesymol a thrachwant, fel mai yn anaml iawn y ceir dyn i gydnabod, hyd yn oed iddo ei hun, ei fod ef yn cael ei lywodraethu gan "drachwant aur," neu gybydd-dod.

"Dyn ni ofyn ond ychydig—
Na'r ychydig hynny'n hir."

Beth all fod yr achos ynte fod trachwant, neu gybydd-dod, wedi bod yn fagl ac yn rhwystr i blant dynion o'r dechreuad hyd yn awr? A ydyw athrawiaeth y Pechod Gwreiddiol, neu ynte, *Phrenology*, yn rhoddi attebiad digonol i'r cwestiwn. Mwyaf tebyg mai un ydyw o'r drygau a gyfodant yn naturiol oddiwrth amgylchiadau y bywyd hwn, y rhai y gelwir arnom i "ymogelyd rhagddynt." Clywsom un pregethwr ffel yn dywedyd mai "ariangarwch" *yw* y pechod gwreiddiol, am y dywedir mai hwnw "yw gwreiddyn pob

drwg." Ac nid yw y rhai a gyfrifir yn bobl Dduw, os gwir a adroddir, yn rhydd o fod yn gwneuthur gormod o "gyfeillion o'r mammon anghyfiawn;" tystied Traethawd campus ein cydwladwr Dr. Harris, ar "Mammon," mewn cysylltiad âg eglwysi Crist. Gresyn yw, fod neb yn beiddio cyfodi allor i'r Gwir Dduw ac i Mammon dan yr un gronglwyd, ac yn yr un galon. Ond y mae'n sier fod Crist ei hun wedi dangos "nas gellir gwasanaethu Duw a Mammon." Ac mor sier a hyny, mae'r neb sydd wedi dysgu gan yr Iesu, ac sy'n meddu ar ei anian ef, yn credu o'r galon ac yn gwybod trwy brofiad, mai "dedwydd yw rhoddi yn hytrach na derbyn." Pob ffug a thwyll a ddiflana o flaen goleuni y gwir Efengyl.

Ond i ddychwelyd at y mŵn-gloddiau aur newydd. Talaith Bathurst yn Awstralia ddwyreiniol sydd i fod yn *Califfornia* i Loegr. Wedi clywed fod digonedd o aur i'w gael yno, gydag ond ychydig lafur, y mae pobl Sydney a'r gymydogaeth yn gadael maes a masnach, gan redeg am y cyntaf tua'r gorllewin. Gwelir hwynt yn dyrfaoedd, a'u rhofiau a'u piccisau, yn myned i gloddio am y mettel gwerthfawr yn y *Blue Mountains*; yn gymmwys fel ag yr oedd dynion o'r un fath, yn ddiweddar, ond mwy mentrus fyth, o'r Unol Daleithiau yn, brysio tua *Chalifornia*. Ond mae hyn o wahaniaeth mawr yn ffafr trigolion Sydney; nid yw'r daith ond can milltir, ac y mae'r mŵn-gloddiau o fewn cylch ein gwareiddiad trefedigol; tra yr oedd gan yr Americaniaid ddwy fil o filltiroedd i deithio trwy ddiffeithwch anial, ac i beryglu eu bywydau mewn gwlad lle nid oedd preswylwyr heblaw yr Indiaid cochion. Bydd yn haws hefyd i'r siomedig a'r aflwyddiannus i ddychwelyd yn ol i'w galwedigaethau blaenorol. Ond bydd y drygau ysgeler ag sy'n cyd-fyned â thrachwant a phen-ryddid, yn sier o dorri allan yn eu mysg, fel y gwnaethant yn *Califfornia*. Y mae yn eu plith nifer nid bychan o ddynion a gawsant eu alltudio o Loegr, am ledrad a throseddau eraill.

Mae'r newyddion ddiweddar yn hysbysu fod y terfysg a'r cynhwrf mwyaf yn ffynu yn Bathurst, a bod cannoedd yn myned i'r mŵn-gloddiau. Dygwyd gwerth mil o bunnau o aur i Sydney o fewn dau neu dri diwrnod. Yr oedd prisiau ymborth ac angenrheidiau eraill wedi cwnni yn anferthol; cig môch yn cael ei werthi am 3s., can, am swllt y pwys. Nifer y cloddwyr yn Bathurst oedd 1500; y rhai a enillent o £20 i £40 yr wythnos. Wrth gloddio am aur, darganfyddwyd gemau *(rubies)* yn yr afon *Manning*. Cafwyd *rock salt* hefyd. Weithiau digwyddid cael talpau disglaer o aur pur. Dywedir fod cwmpni rheolaidd ar waith dan nawdd aelod o'r cynghor; ac mai'r cynnyrch beunyddiol, wrth *average*, oedd wns o aur y gwr.

Yr oedd yn adnabyddus er ys talm bod aur i'w gael rhwng dyffrynoedd Bathurst a Wellington. Yr oedd hen fugail yn arferol, am flynyddau, i ddwyn dros werth cant punt o aur yn flynyddol, i'w werthu yn Sydney. Digwyddwyd cael talpau o aur yn y dalaith ar amryw droion. Flynyddau yn ol anfonasid telpyn o *quartz* i Loegr, er mwyn ei brofi; a chafwyd ei fod yn cynnwys o aur ac arian, gwerth £120 y dunnell. Darfu Syr Roderick Murchison, rai blynyddau yn ol, alw sylw Llywodraeth *New South Wales* at y ffaith, fod ffurfiad daearyddol y dalaith fynyddig yn dwyn tebygolrwydd mawr i ffurfiad yr *Ural Mountains*, ac ei fod ef am hyny yn eu cynghori i chwilio am aur a metteloedd eraill a geir yn y mynyddoedd hyny. Y mae amryw ffeithiau eraill yn rhoddi arwyddion ffafriol. Y dalaith orllewinol a gynnwys, aur, arian, copr, plwm, ac haiarn, a chyda gwybodaeth a chyfoeth gellir eu gweithio er elw mawr.

Fel yma gwelir fod profedigaethau newydd, o bryd bwy gilydd, yn dyfod i gyfarfod â phlant dynion. Hwyrach na themptir llawer gweithiwr tlawd yn Nghymru, i ddymuno newid ei gyflwr caled ef am eiddo'r dynion sy'n gweithio yn awr yn y mŵn-gloddiau aur. Yr ydym yn cael achos i wybod, trwy ddosbarthiad yr *Ymofynydd*, ei bod yn gul ac yn galed ar y gweithiwr tlawd, mewn llawer cymydogaeth, yn y dyddiau hyn. Nid peth rhyfedd fyddai iddo freuddwydio ychydig am ryfeddodau disglaer yr El Dorado newydd. Gellir disgwyl y bydd ymfydo lawer bellach i Awstralia. Sicr y bydd i lawer dalu yn rhy bryd am yr aur a gaffont yno.

"Nawdd Duw rhag trachwant mawr ei dwyll!
Cyflawnder ammhwyll ydyw;
Lle gwreiddiodd ei fwstfilaidd wŷn,
Holl rinwedd dyn a dderyw."—Iolo Morganwg.

I.

HANESION HYNOD.

Yn y flwyddyn 1399, y daeth gŵr o Gymro, ag ni soniai o bwy dylwyth y daethai, o ryfel â'r Tyrciaid i fyw i Gaerdyf. Ei enw oedd Llewelyn ab Cadwgan. A chymaint oedd ei gyfoeth fal y rhoddai i bob tlawd o'r byd a welai ar ymgais, neu'n dwyn eisieu. Efe a wnaeth dŷ wrth yr hen Dŵr Gwyn, at gynnal cleifion a hen diallu. Efe a roddai'r maint a geisid gantho, nes rhoddi'r cwbl. A gwedi hynny efe a werthws ei dŷ mawr a theg a elwid Plas Newydd i'r Mathawaid, ag a roddes ei werth nes darfu'r cyfan; ac efe a fu farw o eisiau a newyn; ag ni roddai neb iddo, gan ddannod iddo ei wastraff ar gyfoeth.

Yn y flwyddyn 1401, y gwnaeth pryfaid y dail y mawrddrwg yn y wlad, gan ddifa'r dail a'r borfa fal nad oedd ar eu hol fwyd i'r anifeiliaid. A rhyw un a fwriodd galch ar hyd y maesydd i'w difa; a'u lladd a wnaeth hyny. A'r tir a galchwyd fal hynny a ddygodd gnydau rhyfedd o ŷd a gwair, ag o hynny fe aeth calchu tir yn arfer gyffredin ym Morganwg.

Yn y flwyddyn 1407, y daeth pysgodyn mawr i dir rhwng St. Dunwyd a Llanilltud, lle bu farw; a drewi'n fawr iawn a wnaeth, a bod yn achos mawr glefydon. O'r diwedd fe gasglwys y wlad lawer o goed a gwellt idd ei losgi; a'r hynn a dannws y drewynt lawer fwy ar led nag oedd o'r blaen, a pheri llawer o glefyd a marw ar ddynion ag anifeiliaid, a'r gwartheg a'r ychen yn bennaf. A Syr Edward Stradling a roddai lawer o wartheg i weiniaid y wlad, a ddaethant gantho o'i dir ei hun yngwlad yr hâf. Yr oedd y pysgodyn yn ddwy lath ar hugain ei hyd, a rhwng tair a phedair llath ei uwchder.

Yn y flwyddyn 1419, y bu tri diwarnod o wres mawr iawn, fal y bu farw dynion ag anifeiliaid lawer, a'r adar yn marw ar hedfan; a bu farw y pryd hynny'r pryfaid gleision i gyd yn Ynys Prydain, ag ni welwyd un o honynt fyth wedyn; a daeth mwy o les i'r wlad o hynn o beth, nag o afles am y drwg a wnaeth y gwres. Fe fu llwyn o goed ar barc Margam grino a marw, a llawer o'r coed a'r perthy o amgylch yr aes fawr, ag yn y blaen ffordd hynny yn ergyd haul tri ar y gloch o'r dydd.—*Iolo MSS., tudal* 66.

GOLWG GYFFREDINOL AR GORFF DYN,

MEWN FFORDD O ARWEINIAD I MEWN I DDIFYNIAD.

(*O'r Meddyg Teuluaidd*).

Tuag at adnabod athrylith a galluoedd gweithiwr, y mae yn angenrhaid ystyried ei weithredoedd; yma y gallwn ffurfio y dyb gywiraf am fawredd ei ddybenion, a chadernid ei waith. Efelly y mae gyda golwg ar y Creawdwr ac ei weithredoedd rhyfeddol; wrth fyfyrio ar lyfr mawr y greadigaeth yn unig, yr ydym yn gallu darllain priodoliaethau y Bod goruchel.

Pwy dros funud a all edrych ar fawredd y greadigaeth, heb gyfaddef hollalluogrwydd ei Hawdwr? Yr ydym yn canfod ei ddoethineb yn y peirianwaith a'r drefn sydd trwy y cwbl; pan y mae y cyflawnder, â'r hwn y mae efe yn toi y ddaear, er diwallu anghenion a chysuro ei blant, yn profi ei haelioni mawr a'i gariad at ddyn.

Y mae yr ystyriaethau hyn o angenrhaid yn tywys dyn at wir dduwioldeb; y mae efe yn teimlo ei ymddibyniad fel ag y mae efe yn mesur gallu ei Dduw; y mae ei ofn parchedig yn gyfatebol i'r doethineb a ganfydda efe yn neddfau y greadigaeth; efelly hefyd y dylifa ei ddiolchgarwch am roddion y Creawdwr. Hyn ydyw y canlyniad naturiol o ystyried y Bod Goruchel yn ei weithredoedd: yr ydym yn cael ein hargyhoeddi trwy bethau profedig; ac y mae y pethau hyny yn ddianwadal a chyffredinol.

Pe gallai holl blant dynolryw ddeall natur y greadigaeth a breswyliant, yn ddiameu, ni chyfodent rwystrau yn erbyn cwblhad ei ddybenion mawr a goruchel; ond pawb a wrthient yn mlaen i gynorthwyo y Creawdwr yn nghwblhad cysondeb a dedwyddwch y cwbl.

Ar yr olwg yma y mae adnabyddiaeth o anian o'r buddioldeb mwyaf; hi ydyw y wybodaeth o briodoliaethau y Bod dwyfol, ac yr hyn sydd yn ein galluogi i ddarllain ei ewyllys yn ansawdd ei weithredoedd.

Dyn, efallai, o holl wrthddrychau anian, sydd yn arddangos yr olygfa fwyaf gynhwysfawr o briodoliaethau goruchel y Duwdod; y mae ei gyfansoddiad yn grynhoad o allu, doethineb, a chymwynasgarwch y Creawdwr.

Yr ydym yn canfod dwyfol ddyfeisiad yn mhob rhan o'i beirianiad; a pha un bynnag ai chwiliom weithrediadau rhyfeddol meddwl dyn, neu gyfyngu ein hunain at gyfansoddiad ei gorff, yr ydym yn gallu olrhain yr adeiladydd dwyfol yn y cwbl, ac o angenrhaid yn cael ein harwain i hoffi a charu y gwneuthurwr, ynghyd â'i weithredoedd.

"Seryddiaeth a Difyniad," meddai Fontenelle, "yw y gwybodau a arddangosant i ni y ddwy briodoledd fwyaf a berthynant i'r Bod goruchel: y mae y cyntaf yn llanw y meddwl âg ei anfeidroldeb yn mawredd, pellder, a rhifedi y cyrff wybrenol; a'r olaf yn peri i ni synu wrth ei ddeall a'i gywreinrwydd yn nhrefniad yr amrywiol ranau a manylwch y cyfansoddiad anifeilig."

Cafodd corff dyn ei alw gan yr hynafiaid dan yr enw o fyd bychan; fel pe na buasai ef yn gwahaniaethu cymaint oddiwrth gyfansoddiad cyffredinol anian, yn nghyfluniad â rhifedi ei ranau, ag yn eu maint: dan yr argraffiad hyn oedd Cicero, ac athronyddion ereill. pan yr arosant yn ddyfalach ar beirianiad a chyfansoddiad corff dyn na holl gynnyrchion ereill anian, pryd yr ewyllysient brofi hanfodiad y dduwdod, oddiwrth drefniad ac ardderchogrwydd y bydysawd.

Yn sicr y mae adeilad a swyddgynneddfau dyn, pan eu hystyrir gydâ golwg ar y Creawdwr, yn llanw yr enaid â'r teimladau mwyaf goruchel ac ofnadwy. Pwy a all adnabod ac ystyried y profiadau amlwg o ddaioni a galluoedd rhyfeddol y Creawdwr, yn ffurfiad a chynhaliad y fath gorff byw godidog, addas i fwynhau yr hyfrydwch perffeithiaf, ac wedi ei gylchynu â gwrthddrychau ei ddedwyddwch, megis ag yr ydym; heb deimlo y gwynfydedigrwydd mwyaf goruchel?

A all y meddwl adfyfyrio yn brysur ar y peth ardderchog a goruchel hwn, heb gael ei lanw â pharch; heb hiraethu am fywyd arall ar ol hwn, yn yr hwn y gallem fwynhâu yr hyfrydwch perffeithiaf ag y mae ein cynneddfau a'n hanian yn ymddangos eu bod yn gymhwys idd ei dderbyn, cael golwg ac amgyffred holl gynllun y Creawdwr yn ffurfiad y bydysawd, ac yn nhrefniadau ei holl weithrediadau.

Y mae bod yn adnabyddus o Ddifyniad o'r pwys mwyaf, gydâ golwg ar ein

iechyd; heb ddcall adeilad ein cyrff, nis gallwn ffurfio tyb gywir am eisteddfod ein anhwylderau; na gwybod pa fodd i ddefnyddio moddion gwellâd: heb wybod rhyw beth am beirianiad ein cyrff ein hunain, nid ydym yn alluog i wilied yn erbyn niweidio prif ranuau ein cyfansoddiad, ar ba rai yr ymddibyna ein bywyd.

Dylai pob dyn wybod rhyw beth am ei adeilad ei hun, a meddianu y wyboddaeth a addysgir yn y Ddiareb Roegaidd—"Adnabydd dy hun,"—yr hyn a ellir ei gymhwyso at y corff yn gystal a'r meddwl, neu amgylchiad mewn bywyd. Nid yw yn hollol angenrheidiol mewn trefn i addasu person i weinyddu meddyginiaethau mewn anhwylderau, iddo fod yn adnabyddus â holl fan ranau adeilad corff dyn; ond y mae yn anhepgorol angenrheidiol iddo fod yn adnabyddus o sefyllfa, swyddau, neu ddybenion neilluol y prif beirianau, yn gystal a'r cydymdeimlad perthynol iddynt, trwy eu cysylltiad a'u gilydd.

Dywedodd y diweddar Dr. Hunter, yn ei lith arweiniadol i Ddifyniad, "fod yn angenrheidiol mewn trefn i fod yn alluog i wybod i ba ddyben y mae corff dyn yn cynhwys y fath amrywiaeth o ranau; pa ham y mae ef y fath beiriant cydblethedig a thyner; a pha ham na fuasai yn hytrach yn gyfansoddiad unwy digymysg, llai manwl, a llai treulfawr, i ni wneud i fynu yn ein dychymyg ddyn:" mewn geiriau ereill, gadewch i ni adael fod y meddwl, neu y rhan ysbrydol, i gael ei osod mewn adeilad corfforol, fel ag y gallai gyfrinachu â bodau dacarol ereill trwy gyfrynglad y corff; ac yna ystyried *yn flaenorol*, pa beth a fyddai yn ofynol er ei addasiad.

Yn yr ymofyniad hyn ni a gawn weled yn amlwg yr angenrheidrwydd a'r fantais a chan hyny yr achos gwreiddiol, o'r rhan amlaf o'r rhanau ag ydynt idd eu cael mewn corff dyn.

Ac os ystyriwn nad yw deall a dyfais dyn yn alluog i ateb amrywiol o'r pethau gofynol, ni raid i ni ryfeddu os cyfarfyddwn â rhai rhanau o'r corff na fedrwn ni ddeall eu gwasanaeth, ac a rhai gweithrediadau a swyddgynneddfau na allwn ni eu hegluro.

Yr ydym yn canfod fod y cwbl yn dwyn y cymeriadau mwyaf nodedig o ragoroldeb doethineb, a chywreinrwydd; ond ni all synwyriau anamherffaith a deall dyn ymhòni amgyffred pob rhan o beiriant, yr hwn ni allasai dim llai ei ddyfeisio a'i wneuthur nâ dealltwriaeth a gallu y Bod goruchel.

Yn gyntaf, y mae yn angenrheidiol i'r meddwl, y goruwchwyliwr anghorfforol a meddylgar, gael lle penodol o aresiad, a chanddo bob peth gofynol er uno ysbryd â chorff; yn ganlynol, y mae yr ymenydd wedi ei ddarparu iddo, lle y mae yn aros megis llywodraethwr ac arolygydd dros yr holl adeilad.

Yn y lle nesaf, y mae yn ofynol trwy ei fod i ddal cyfrinach â'r holl fodau corfforol odiamgylch iddo, ei fod yn feddiannol ar beirianau addas i dderbyn y gwahanol rywogaethau o argraffiadau a wnant arno ef. I'r dyben hwn, gan hyny, yr ydym yn canfod bod peirianau y synwyr wedi cael eu darparu, megis ag yr ydym yn eu galw; y mae y llygad wedi ei addasu at y golewni; y clust at sŵn; y trwyn at arogliad; y genau at archwaethiad; a'r croen at gyffyrddiad.

Yn mhellach, y mae yn ofynol bod ganddo beirianau cyfranogiad perthynol iddo ei hun yn yr ymenydd, a pheirianau synwyr, i roddi hysbysiad am yr holl argraffiadau a wneir arnynt; ac y mae yn ofynol bod ganddo beirianau ereill perthynol iddo ei hun yn yr ymenydd, a phob rhan arall o'r corff, addasedig i drosglwyddo ei archiadau a'i reolaeth dros y cwbl. I'r dybenion hyn y mae y gîau wedi cael eu rhoddi.

Y gîau ydynt fath o linynau gwynion tyner, yn cyfodi o'r ymenydd, eisteddle union-gyrchiol y meddwl, ac y maent yn taenu eu canghenau oddiyno trwy bob rhan o'r corff. Y maent yn dwyn yr holl wahauol rywogaethau o deimladau i'r meddwl yn yr ymenydd; ac yr un fath y maent yn trosglwyddo allan oddiyno ei holl archiadau i bob rhan o'r corff.

Y mae y gîan wedi cael eu bwriadu i fod yn rhybuddwyr achlysurol erbyn pob argraffiad a allai beryglu dedwyddwch yr holl adeilad, neu ryw ran neilluol o hono; yr hyn sydd yn amddiffyn Creawdwr pob peth, yn ein bod yn ddarostyngedig i'r amrywiol deimladau anhyfryd a a phocnus ag ydym yn agored iddynt oddiwrth fil o ddamweiniau mewn bywyd.

Yn mhellach, y mae yn rhaid i'r meddwl, yn y cyfansoddiad corfforol yma, fod wedi ei gymysgeddu a gallu i ymsymud

o le i le; fel ag y gallai gydfasnachu âg amrywiol wrthddrychau; fel ag y gallai ymwrthod â'r rhai ydynt anhyfryd, peryglus, neu niweidiol; ac ymdrin a'r rhai ydynt hyfryd a gwasanaethgar iddo ei hun. Yn ganlynol, darparwyd iddo aelodau, cyhirau, a gewynion, y rhai ydynt offerynau ysgogiad, ac y maent idd eu cael yn mhob rhan o'r adeilad ag y mae ymsymudiad yn angenrheidiol.

Ond i ddal i fynu, i roddi agweddiad addas a chadernid i'r adeilad; i gadw y rhanau tyneraf yn eu lleoedd priodol; i roddi manau sefydlog a chyfeiriadau priodol idd ei ysgogiadau, yn gystal ag i amddiffyn rhai o'r rhanau mwyaf eu pwys a thyner rhag niweidiau allanol, y mae yn ofynol bod rhyw fath o ategwaith cadarn yn blethedig trwy y cyfan. Ac i'r dybenion yma y mae yr esgyrn wedi cael eu rhoddi,

Ni wnaed yr ategwaith i fynu yn un adeilad anmhlygedig, o blegid rhwystrasai hyny ei ysgogiad. Gan hyny, y mae ynddo amrywiol o esgyrn.

Y mae yn angenrheidiol i'r holl ddarnau yma gael eu rhwymo yn gadarn ynghyd, i attal eu dadgymaliad. Y mae y dyben hyn yn cael ei ateb yn hollol dda gan rwymynau y cymalau.

Y mae yn rhaid i benau yr esgyrn yma, lle y maent yn ysgogi ac yn ymrwbio ynghyd a'u gilydd, fod a'u harwynebau yn llyfn a llithrig, fel ag y gallant ysgogi yn esmwyth. Y mae hyn wedi cael ei drefnu yn y modd mwyaf cysurus, trwy fadruddion a llysnafedd y cymalau.

Y mae yn rhaid i'r gwagleoedd rhwng y rhanau hyn gael eu llanw i fynu â rhyw ddefnydd tyner ac ystwyth, yr hwn a'u ceidw yn eu lleoedd, a'u huna, ac ar yr un pryd a oddef iddynt ysgogi ychydig ar eu gilydd; y mae y pethau hyn yn cael eu hateb gan y bilen gellog, neu y sylwedd bras.

Y mae yn ofynol bod gorchudd allanol dros yr holl beiriant, er ei grynoder a'i amddiffyniad rhag mil o niweidiau; yr hyn bethau ydynt wir ddybenion y croen a philenau ereill.

Yn olaf, trwy fod y meddwl wedi ei ffurfio i gymdeithasu a chyfeillachu a bodau o'i rywogaeth ei hun, y mae yn ofynol iddo fod yn feddianol ar allu i egluro a throsglwyddo ei feddyliau trwy ryw fath o arwyddion neu nodau allanol, hawdd iddo ei hun, ac yn caniatau amrywiaeth mawr; ac yn ganlynol, y mae peirianau a gallu ymadroddiad wedi cael eu darparu iddo, trwy ba rai y mae yn alluog i roddi arwyddion allanol o'i feddyliau, ac eu hamrywio yn ddiderfyn.

(*I'w barhâu.*)

LLYSIEUAETH.

(*Parhad o Lythyr* iv., *Tudal* 212.)

BRIW-WYDD GOCH.

[*Madder—rubia tinctorum*].

Y wreiddrudd, fel ei gelwir gan rai, sydd blanhigyn garw, a achlesir er mwyn ei wraidd a ddefnyddir gan liwyddion. Ei golof sydd wan a phedrual, yn tyfu i droedfedd a haner o uwchder; y dail o chwech i wyth o nifer, a dyfant ar ddull seren, ar bob cymmal i'r gorsen; y maent yn wyrdd-dywyll eu lliw, yn eirwon, ac yn teimlo yn bigog. Y blodau ydynt felynion a bychain, yn tyfu fal o fonwes y dail. Y gwreiddyn sydd hirfain ac o liw coch.

Peth hynod a berthyn i'r llysieuyn hwn ydyw, fod trwnc, llaeth, ac hyd yn od, esgyrn yr anifeiliaid a arferont ei bori, yn cael eu lliwio yn goch; dengys hyn ei fod o ansawdd tra threiddiol.

Fel meddyginiaeth defnyddir y gwreiddyn rhag disborthiant ar fabanod. Rhai a'i canmolant fel dwfiberai gwerthfawr. Y dogn mewn sylwedd i ddyn yn ei gyflawn faint, sydd haner *dram*, o ddwy i dair gwaith y dydd; ni ddylid rhoddi ond y drydedd ran o hyny i faban rhag disborthiant.

BRYMLYS.

[*Pennyroyal.—Pulegium.*

Breflys, llysiau'r coludd, llysiau'r pwdin, ac fel y clywaf ei enwi fynychaf, *organs*, a dyf yn wyllt mewn parthau o'r Ynys hon, mewn sefyllfaoedd corslyd; ond a blenir yn ein gerddi er mwyn ei rinweddau gwerthfawr. Yr holl lysieuyn a ddefnyddir. Nid oes hyfrytach llysieuyn o fewn i furiau yr ardd na hwn;

ei dwym beroglai a wna ei dê yn llesol a hyfryd i'r cylla; ac o'i ddefnyddio yn lle tê Indiaidd yn achlysurol, cynnorthwya draul ymborth, adlona y ginâu, cynnorthwya weithrediadau yr arennau, y dyfribilau a'r bledren. Y mae yn llysieuyn gwerthfawr rhag y laswst a'r faswst; eithr ni ddylai gwragedd beichiog ei ddefnyddio er dim; gan ei fod yn cael ei gyfrif yn esgorai. Gyda yr eithriad a enwyd, ymddengys i mi ei fod yn hollol ddiogel yn mhob anhwylderau, i wneud y defnydd a fynor o hono. Cedwir ei nawdolew ar werth gan y cyffyrwyr; ond y ddarpariaeth oreu a wneir o hono yw tê.

BRYTWN.

[*Southern-wood.—Abrotanum-mas*].

Adnabyddir y tramorind hwn wrth yr enwau canlynol:—llysiau'r corph, sander y bwd, yr hen ŵr, &c.—a phlanir ef mewn agos i bob gardd; felly dirnid ei ddesgrifio. Mae iddo arogl cryf a hyfryd, gyda blas poeth, chwerw, a ffaidd; ei nasoddau a dynir yn drwyadl gyda gwirddwfr (*proof spirit*), ond yn brinach gyda dwfr. Defnyddir tê gwan o'i ddail rhag y llyngyr. Mewn cyfansoddiadau ocrion a llysnafeddog, dywedir ei fod yn symbylai, glamberai, agorai, a chwŷsai. Yn allanol, gwnaif defnydd o hono i chwalu chwŷddiadau; ac mewn achosion o bydriad neu farweiddiad rhyw ranau o'r corph ei ansawdd symbylol a wrthweithia y cyfryw duedd angeuol; felly defnyddir ef mewn clîm fel chwalai a gwrthbwdrai.

Dywedir hefyd fod iddo rinwedd neilldnol i sierhau y gwallt ar y pen, pan tuedda i syrthio ymaith.

MORMONIAETH.

Mr. Golygydd,—Achwŷn mae Philalethes am y rhyddid a roddasoch i John Richards, Dinas. Maent ill dau wedi rhoddi eu hunain i farn y cyffredin. Cytuna holl darllenwyr Newyddiduron Saesneg a Philalethes. Yr wyf fi wedi bod yn un o'r blaid hon, a elwir Mormoniaid: ac mi ddymunwn wneuthur cyffawnder â chrefydd. Ond barned y byd, ai crefydd yw y pethau hyn y mae J. R. yn syfrdanu am danynt.

AT J. R.

Nid oddiar chwim, neu ddrwgnaws y cyfeiriaf yr ychydig linellau hyn attoch chwi, J. R. Dinas; ond oddiar ddymuniad o'ch argyhoeddiad. Yr ydych yn ddyn o dybiadau gwan, neu ynte yn hollol dwyllwr. Dywedasoch fod yn eich eglwys brofiwydi, llefaru â thafodau, dawn cyfieithu &c., a bod genych "dystiolaeth &c." Dywedasoch eich bod yn eu plith er ys rhai blynyddau ac na welsoch un annhrefn yn eu plith. Minnau hefyd a dywedaf fod yn eu plith brofiwydi — ond profiwydi Baal ydynt: barned y byd. Profiwydasant mewn gwahanol funnau, pan oedd y Cholera yn y gwledydd nesaf i'r deyrnas hon, fel hyn. Cyfodai profiwyd ar ei draed, safai yn *stiff* fel pe byddai dan wasgfeion, a'i ddwylaw ar led: a dywedai, "Yr ydwyf yn dywedyd trwy fy ysbryd y daw pla i'ch mysg, ac y bydd dynistr anforthol ar ddynolryw. Eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, na chaiff niweidio neb o honoch chwi'r Saint, fy mhobl etholedig. Peidwch ofni, ni chaiff gyffwrdd a neb o honoch chwi: Yr Arglwydd a'i llefarodd." Pregethwyd hefyd mewn gwahanol funnau, nad oedd achos i'r Saint ofni'r Cholera; na chawsai neb o honynt hwy ef, ac nad oedd angenrhaid iddynt wrth feddyg.

Daeth y pla: tarawodd un pregethwr; ond gwaeddodd allan, "doctor, doctor!" Beth! Doctor? Ble mae'r proffwyd a'i dduw yn awr? Bu'r dyn farw, a Duw (meddai efe) wedi sierhau i'r gwrthwyneb! Ai dim ond hwnw yn unig? Na, na, yn mhob cymdogaeth lle'r oedd Mormons, clywais i, a chwi, J. R. y brofiwydoliaeth—os addefwn wir; a gwelsom hefyd nad oedd y proffwydi na'n duw, yn deall tynged dyn yn dda. Yr oll o'r profiwydoliaethau oeddent yn gyffelyb; rhoddais nn or engrhaifft. (Da chwi, gan fod yn eich plith y fath *fortune-tellers*, dywedwch, pwy a ysgrifenodd hyn?) Cyn dybeun a'r pen hwn golynaf, p'un ai trefn neu annhrefn oedd hyn?

Awn ymlaen at y tafodau dieithr. Iaith hwyaid yw *wat, wat, wat*. Iaith buweh, mŵ. Ond gall Mormon gyfieithu 'n rwydd o iaith mwy dyrus na hyn. Iaith mormon, "Co-lo-lo-losho co-lo-losho-lo saralamanos co-lo-losho-lo" cyfieithad yr Arglwydd, meddir, a ddywedodd, "bydd rhai o honoch i ymadael oddiwrth y Saint a'n nlweidio 'n fawr." Clywais *co-lo-lo-losho*, (yr un geiriau) yn cael ei gyfieithu, "gweddiweh, canys y mae fy ysbryd yn cael ei gynnyg i chwi 'n helaeth. 'Nawr, p'un ai trefn neu annhrefn oedd hyn—cyfieithu'r un geiriau'n wahanol? Dywed pob rheswm nad oedd eu hyspryd glan yn deall Cymraeg. Dywedaf finnau'r un peth, a rhoddaf hefyd swllt at ei

gynnal mewn ysgol Gymraeg. Attalia hyny ddynion i'w wawdio mwy.—J. R. dywedwch wrthyf, pwy iaith mae eich ysbryd glan yn ddeall?

Etto, iaith Mormon, *tara marra lal a fara marra marra la la fara marra*; cyfeithad yr Arglwydd, a ddywedodd, "Bydd cynnydd mawr yn eich plith, dylifa i mewn yr onest o galon." Cyfieithid *tara marra lal a fara*, brydiau ereill, "Fy mhlant anwyl byddwch ffyddlon, a mi a barotöaf le i chwi yn Seion." Fe welir bod eich ysbryd glan chwi J. R., yn llefaru yn ôl amgylchiadau ac achosion, i gyflawni mympwy dynion twyllodrus er mwyn budd. Fel yna yr arferir rhesau o eiriau traws-sillweddiad, a byddir yn ystymiaw pan byddo'r ysbryd yn dylanwadu, hyd nes dechreuant lefaru gydag oer-leisiau dychrynllyd asynaidd. Braidd na fydd y gwan yn barod i gredu ei fod yn cael ei dwyllo gan ei olygon, y meddiannant bennau asynaidd hefyd.

Fel hyn y gwasgir ar deimladau ifainge yr oes, eu bod dan ganol-bwynt moesoldeb, a theilwng o gydwledd ag angylion ac archangylion yn y byd dyfodol. Clywais fachgenyn o ddeutu naw mlwydd oed, yn llefaru *cadrach fadrach fadrach cadrach*. Cyfieithodd llywydd yr Arglwydd, gan ddywedyd, "Mae rhai o honoch yn anghredu, a thyna paham y llefarais hyn." Nis gallaswn lai nag wylo wrth weled yr ifainge yn cael eu hudo i goel-grefydd baganaidd.

Darfu i chwi anfon eich cecraeth, &c., disail o flaen y byd! Mai dwli i gyd yw eich dylanwadau'r ysbryd, yw fy nhystiolaeth i—dim ond "*phantoms of the brain.*"

Mr. Gol., dybenaf y tro hwn gydag ond ychydig eiriau, rhag blino eich darllenwyr. Cewch glywed oddiwrthŷf etto, er rhoddi cip-olwg ar "canu trwy'r ysbryd," "bwiw allan gytheuliaid," ynghyd a'u tystiolaeth hwynt. Gwyr J. R. fy mod wedi cwtogi llawer. Nid oes achos iddo ef ddiolch, ofn niweidio'ch cyhoeddiad a'i gwnaeth.

DAFYDD DYWEYD-Y-GWIR.

[Ni fuasem yn cyhoeddi y llythyr uchod, oni bai fod ein Gohebydd wedi rhoddi i ni, yn *brivate*, ei briod enw.—GOL].

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y REFORM BILL NEWYDD.

MAE'N hysbys i'n darllenwyr bod Etholiad Cyffredinol yn neshâu; ac o bosibl y cymmer le tua'r Gwanwyn. Nid yw pleidwyr Arglwydd J. Russell yn Nhy y Cyffredin, yn ddigon aml a dylanwadol, i gynnal cynnygiadau ei weinyddiaeth. Yn nghwrs yr eisteddfod ddiweddaf, trodd y mwyrif yn erbyn y Whiggiaid, amryw droion; ond nid oedd y mwyrif hwnw yn cytuno a'u gilydd; a methwyd cytuno ar un weinyddiaeth arall, a fyddai yn barod ac yn ddigonol i lenwi eu lle. Yn y cyfamser cyhoeddodd Arglwydd J. Russell, ei fod ef a'i gyd-weinidogion ar fedr cynnyg diwygiad ar y "Reform Bill."

Beth all y cyfnewidiadau hyny fod, ag y maent ar fedr eu cynnyg; nid ydys etto wedi amlygu. Y dyb gyffredin yw, mai changu'r Bleidlais, fydd amcan y cyfryw gynnygiad. Y mae ysgrifenwyr y prif newyddiaduron wedi bod yn gosod eu hymenyddau ar waith i geisio cael allan beth fydd y cyfnewidiad a gynnygir; a pheth y dylai fod. Ond fel y gellsid disgwyl maent hwythau yn anghytuno. Y peth mwyaf tebygol yw, fel y dywedodd Mr. Hume yn ddiweddar, nad yw Arglwydd J. Russell ei hunan ddim yn gwybod yn iawn ar hyn o bryd, pa gyfnewidiadau fydd iddo gynnyg.

YR ARDDANGOSIAD MAWR.

Mae'r dydd yn agoshâu, ac ymron wrth y drws, pan y ceuir i fynu y Tŷ Gwydr. Ni fydd ei ryfeddodau, hwyach, ddim ond pethau i'w cofio, neu i siarad am danynt. Nid y'm meddwl y bydd neb o'r cannoedd o filoedd o ymwelwyr deallus a aethant i'r olygfa fawr, fyth i anghofio ardderchawgrwydd a rhyfeddodau'r lle. Deallwn mai tua chanol y mis hwn y ceuir y lle; ac y bydd yr un rhwysg mawreddog gyda'r diwedd ag a fu ar y dechreuad.

Ymddengys oddiwrth y newyddiaduron taleithiol, fod niferoedd lawer wedi myned i fynu i Lundain yn nghwrs yr haf, nad allent hebgor y gost, heb wneuthur cam a'u teuluoedd. Er enghraifft darfu *Pawnbroker* yn Nghaerloyw, ar un diwrnod derbyn *cant o fodrwyau priodas*, a deg gwely plyf, yn llog, am arian oeddent i'w treulio mewn ymweliad a Llundain. Ofnir y bydd achwyniadau mawr yn ystod y gauaf dyfodol. Hyderwn y bydd y cynhauaf ffrwythlawn ag y mae rhagluniaeth wedi ei roddi i ni, i wneud i fynu, mewn rhyw fesur, am y prinder o arian.

Y PEIRIANT MEDI.

Dyfeis-waith un Mr. M'Cormick o America yw y *Machine Medi*. Yr ydoedd i'w weled gydâ pheiriannau lawer eraill yn yr Arddangosiad yn y Tŷ Gwydr. Yn ddiweddar y mae wedi ei brofi, ac y mae Mr. Pusey, M.P., wedi gwneud adroddiad o'r amgylchiadau i'r *Royal Agricultural Society*. Dywedir fod y Peiriant yn cael ei dynu gan ddau geffyl, ac yn cario dau ddyn, heliwr a rhacanwr. Yr oedd yn tori'r ŷd o fewn wyth modfedd i'r ddaear yn eithaf rheolaidd. Nid oedd ond gwaith esmwyth i'r ceffylau, er fod y Peiriant yn tori ar y rât o erw a haner yr awr, neu 15 erw y dydd o ddeg awr. Diau fod y rhacanwr, yr hwn a eisteddai y tu cefn i'r heliwr, i racanu'r ŷd a dorid oddiar y *platform*, yn gorfod gweithio yn galed; ond mae'n amlwg y gallai'r heliwr, gwaith yr hwn nid oedd ond ysgafn, newid âg ef ar droion.

Yr oedd llawer o ffermwyr yn bresenol, er cael gweled pa fodd y byddai'r Peiriant i weithio; a dywedir na chafwyd bai na gwall ynddo. Dylid cofio mai ar y tir teg y cafodd ei brofi. Lle y byddo grynau a rychiau dyfnion, ymddengys fod peth anhawsdra. Er yn hollol newydd yn ein gwlad ni, mae'r peiriant wedi bod mewn arferiad yn America, er ys blynyddau; lle y mae'r dyfeisydd wedi cael cyfleusdra i wella ei ddiffygion o dymor i'w gilydd.

AGER-ARADR.

Dyma ergyd arall etto i'r gweithiwr tlawd. Yr y'm ni o'r farn y dylai y sawl fyddo'r cael elw oddiwrth ddefnyddio y fath beiriannau, ag ydynt yn taflu dynion i maes o'u gwaith arferol, gyfranu yn gyfattebol tuag at gynnal y colledwyr. Ond gallant gael gwaith ar faes arall, meddir. Yr hyn ddwg i'n cof yr hen chwedl.

"Blaidd ag oen (b'le dda gwanwr),
Yntwy ddau, aen' gynt i ddwr, &c."

Profwyd yr ager-aradr yn ddiweddar gan Arglwydd Willoughby d'Eresby, a chafwyd (dywedir) ei fod yn atteb y pwrpas yn dda dros ben.

FFRAINGC.

Y mae'n amhëus pa un ai bydd i'r Llywydd presenol, Louis Napoleon, gael ei ail ddewis i'r swydd. Mae'r gyfraith sy'n rhwystrol i hyny heb gael ei dilëu etto. Oni bydd i'r gyfraith honno gael eu dilëu cyn amser etholiad y Llywydd yn mis Mai nesaf, mae lle i ofni y gwneir gynnyg at derfysg os nad chwyldröad. Yn y cyfamser, y mae pob tebygolrwydd y bydd i'r Tywysog Joinville, mab Louis Phillippe gynnyg ei hun i'r Frangcod, i fod yn Llywydd iddynt yn lle Louis Napoleon. Y mae'r gwahanol bleidiau yn methu yn lân â chytuno â'u gilydd. Diau y bydd i'r digwyddiadau pwysig (cyfnewidiadau ond odid) ag sydd ar gymeryd lle yn Ffrainge, i gael effaith fawr ar gyflwr y Cyfandir yn gyffredinol. Yn Awstria, Prwssia a gwledydd cyfandirol eraill, yr ydys yn cadw byddinoedd costfawr ar droed, i fod yn barod yn erbyn unrhyw amgylchiadau brawychus a allant ddigwydd. Yn mae'r Argraff-wasg yn Ffrainge mewn cyflwr o gaethiwed cywilyddus

KOSSUTH.

Y mae'n dda genym hysbysu fod yr enwog Kossuth a'i gyfeillion wedi cael eu rhydd-hau o'u carchar yn Nhwrci; a'u bod yn awr ar eu mordaith tua'r Unol Daleithiau yn America.

DEHEUDIR AFFRICA.

Nid yw Sir H. Smith, mae'n debyg, yn gallu gwneud dim yn rhagor na sefyll ei dir yn erbyn y Caffres a'r Hottentots. Erbyn hyn mae'r milwyr a anfonwyd yn gynhorthwy iddo, wedi cyrhaeddyd y *Cape*. A disgwylir bellach y bydd iddo ef a'i fyddin i fod yn fwy llwyddianus.

CUBA.

Y mae'n darllenwyr ond odid yn cofio ddarfod, nid amser mawr yn ol, i haid o Americaniaid (heb gennad eu llywodraeth) ymosod ar Cuba, gyda'r amcan o gymeryd meddiant o'r wlad, fel y darfu i ddynion o'r fath cyn hyny lwyddo i gymeryd meddiant o Texas; ond iddynt y pryd hwnw, gael eu siomi. Mis Awst diweddaf, anturiwyd yr un peth eilwaith, gydâ chyffelyb aflwyddiant. Gwedi brwydr boeth a gwaedlyd gorchfygwyd yr ymosodwyr. Cymerwyd 50 yn garcharorion, y rhai a saethwyd, bob un o honynt, yr un diwrnod. Y lleill o'r ymosodwyr, y rhai oeddent dan arweiniad Lopez, a ddiangasant i'r mynydd-dir; ond wrth bob tebygolrwydd y maent cyn hyn wedi eu dal a'u gorchfygu gan fyddin y Llywodraeth Yspaenaidd, ac wedi derbyn eu cospedigaeth. Bu cynhwrf anghyffredin yn rhai parthau o'r Unol Daleithiau, pan ddaeth y newydd fod cynifer o'u brodyr wedi cael eu lladd, gan Lywodraethwyr Cuba.

Marwolaeth.

Awst 22, yn 76 mlwydd oed, Thomas Davis, Yr Efail Fach, ger Llanbedr-pont-stephan. Yr oedd yr ymadawedig yn adnabyddus i laweroedd ymhell ac yn agos, fel dyn gonest, a pharod yn wastad i estyn llaw o gynhorthwy. Nid yn aml y gyfarfyddid a'i fath. Treuliodd ei amser mewn heddwch ac ewyllys da. Dioddefodd gystudd hir yn amyneddgar, gan blygu i ewyllys y Nef: a gwelwyd ynddo arwyddion nad oedd wedi gobeithio yn ofer. Claddwyd ef y Llun canlynol yng Nghaeronen, lle buasai yn aelod ffyddlon dros flynyddau lawer. Ymgynnullodd lluaws mawr i'w angladd. Pregethodd y Parch. D. Evans ar yr achlysur oddiwrth 2 Tim. iv. 8.

Attebion.

ATTEBIAD

I Ofyniadau Morgan Sion, Pencarreg, Rhif. Gorph. tudal 167.

Mr. Gol.—Gadewch i mi gynnyg atteb gofyniadau M. Sion, tud. 167.

1. Lled *erw* (yr hyn gymmeraf yw "cyfer") o dir, a fyddo yn 100 llathaid o hyd, yw 48 llath. 1 droedf. 2.4 modf., neu 1742.4 o fodfeddi; yr hyn, os y rhennir â 9, sef, lled cwys yr aradwr cyntaf, a rydd 193.6, sef y nifer o gwysi. A chan fod pob un yn 100 llath. o hyd, y cyfanswm fydd 19360 o lathcidi, neu 11 filldir ýn gymmwys; yr hyn raid i'r aradwr cyntaf i deithio.

Rhaid i'r ail aradwr, cwys yr hwn sydd 8 modfedd, i deithio deuddeg milldir a chwarter a 220 o latheidi. T. R.

2. Erw neu gyfer ysgwâr o dir a gynnwys 43560 o droedfeddi ysgwâr. Cymmerer y pedwaran, *Square root*, yna bydd 208.7 &c. troedf; sef hyd un o ochrau'r sgwâr. Etto, y ddwy-drydedd ran a gynnwys 290.40 o droedfeddi; a hyd un o ochrau'r ysgwâr hwn fydd 170.4 &c. Tynner yr olaf allan o'r blaenaf, y gweddill fydd 38.2; hanner yr hyn yw 19.1 &c. troedf., sef, "lled y gwely blodau," yn ol gofyniad y cyfaill Morgan Sion. *Twyn y Wig.* T. R.

[Derbyniwyd attebion i'r un gofyniadau oddiwrth D. Howell, y rhai ydynt yn lled agos i'r rhai uchod.—Gol.

Barddoniaeth.

Mr Ymofynydd.— Os byddwch yn ystyried y llinellau canlynol yn deilwng i gael ymddangos yn eich Misolyn clodwiw, y mae'n debygol y cewch ychwaneg ar yr un testun.

Yr eiddoch &c.

Castellnedd. I. ab Rhudderch.

Mae amser yn myned fel ffrwd fawr lifeiriol
A miloedd, bob munud, i'r môr mawr trag'wyddol;
Yn erbyn ei ffrydiau 'does neb ag all nofio—
'Does ddychwel i fywyd 'nol unwaith ymado.

Mae miloedd ddechreusant yr un pryd a minnau,
Eu hymdaith ddaearol, yn awr yn eu beddau:
A minnau a glywaf swn olwyn y cerbyd,
Sy'n dyfod yn gyflym i'm cyrchu o fywyd.

B'le heddyw mae anwyl gyfeillion fy ieu'ngctyd?
Maent fwyaf yn gorphwys yn dawel mewn gweryd;
Eu câs, fel eu cariad, sydd nawr wedi darfod,
Ni theimlant hwy mwyach, boen, gofid na thrallod.

Fy Nhad aeth i'w wely yn eglwys Llanwnen,
Lle heddyw mae'n huno yn dawel mewn daeren;
Fy mam anwyl, hithau sydd heddyw yn gorphwys,
Yng Nghellan yn llonydd wrth dalcen yr eglwys.

I'w gwely pridd oera'dd yr aeth ein holl dadau,
I'r un gwely tawel ar fyr yr awn ninnau;
Ond cyn myn'd i'r beddrod lle byddwn yn ebrwydd,
Awn, gwelwn y lle y bu'n gorwedd yr Arglwydd.

Yn ol ei groeshoelio b'le dodwyd yr Iesu?
Mewn gardd llawn o flodau, mewn craig cadd ei gladdu;
Tu allan i'r ddinas lle cleddid y meirwon;
Can's dyma'r hen arfer oedd gan yr Iuddewon.

Nid o'ent yn arferol o gladdu mewn trefi,
Rhag ofn cai y byw gan y marw ei halogi;
Nid neb ond tŷ Dafydd a gaffai yr urddas
O gael lle i'w beddau 'fewn caerau eu dinas.

Hen Abraham gladdodd ei anwyl wraig Sara,
Mewn ogof ger Mamre yn nheg faes Machpelah:
Mewn ogof bu Laz'rus yn gwneuthur ei drigfan,
Nes clywodd lef uchel yn dyweyd "tyred allan."

I'n Iesu, bedd newydd gan Joseph a dorrwyd
O'r graig, fel d'wed Mathew, ag yno ei claddwyd;
Ac yna aeth ymaith yn ol iddo dreiglo
Maen mawr ar y beddrod lle'r ydoedd yn huno.

Ond trannoeth ymgynnull a wnaeth yr Iuddewon,
Gan ddywedyd—yn ddiau y daw ei ddisgyblion,
Hyd nos at ei feddrod i dreiglo'r maen ymaith,
Ac yna hwy haerant—"cyfodi wnaeth eilwaith."

Ond er mor ddiogel y tybient ei feddrod,
Gan filwyr dan arfau faent beunydd yn gwarchod;
Cadwynau oer angau fel edau a dorrodd,
Trwy wyrthiau rhyfeddol a mawrion y nefoedd.

Mewn bedd newydd, cofiwn, y rhoddwyd yr Iesu, [gladdu:
Mewn craig lle na chawsai o'i flaen neb ei
Ni allsai elynion ddyweyd iddo gyfodi §
Trwy gyffwrdd ag esgyrn rhyw un o'r prophwydi.

'Nol iddo ymddangos i dystion laweroedd,
Esgynnodd ar gwmmwl i entrych y nefoedd,
O'r lle y daw etto mewn mawredd, a gallu,
I ddwyn mil o filoedd o'u beddau i'w barnu.

A llygad ffydd gwelwn yn awr wawr y borau,
Pan ddaw mil o filoedd a myrdd o fyrddiynau
Yn iach a dihangol i drigfan y gwynfyd,
Heb deimlo gwasgfeion a helbulon bywyd.

TEIMLAD Y BARDD, A'I GYNGHOR I'R IENGCTID.

O bridd y'm gwnaed ar ddelw dyn,
Ar bridd mae pwys fy mywyd cûn;
I bridd yr af,—ar fyr daw'r awr,
Dan gadwyn y dynghedfen fawr.

Er rhoi fy nghorph yn wael ei wedd,
Gan ing a'i glwy, a marwol gledd;
Caf ddychwel 'nol, medd Gair fy Nuw,
Er selio'r bedd, yn sylwedd byw.

Nid damwain yw marwolaeth dyn,
Ond deddf-osodiad Duw ei hun;
Dydd genedigaeth pob dyn byw,
Sy 'nglyn wrth ddydd marwolaeth, clyw.

Mae dydd y dyoddef a'r mwynhau,
Yn siwr o ganlyn tymhor hau;
Os hau i'r cnawd a fydd ein bryd,
Cawn fedi trallod, gwae, a gwyd.

Os hau i'r yspryd ar ein taith,
A fydd ein hoff ragorol waith;
Cawn brawf yr ochr hyn i'r bedd,
Ar fywyd o dragwyddol hedd.

Rhaid gwneud y gwaith tra phery'r dydd,
(Neshau mae'r nos a'i niwlog nŷdd);
Tra byddo'r cof yn fywiog braf,
Daw darfod hau, daw terfyn hâf.

Gyfeillion! henaint deimlaf 'nawr,
Bob dydd, bob nos, bob munud awr;
Yn pwyso arnaf fel y plwm,
Blinedig wyf dan faich mor drwm.

Am hyn, chwi'r iengctid gwych eich gwedd,
Gwnewch gofio byw cyn myn'd i'r bedd;
Ystyriwch beunydd ar eich taith,
Bydd rhaid rhoi cyfrif am eich gwaith.

Cymerwch gyngor gan y bardd,
Oddiar wir brofiad hwn a dardd;
Meithrinwch egwyddorion moes,
Ar ddechreu'ch taith, cyn treulio'ch oes.

Os hyn a wnewch, bydd mawr eich llwydd,
Daw'r ffordd yn rhydd, a'r gwaith yn rhwydd;
Bydd gwyn eich byd—cewch ddod o'ch bedd
Yn eithaf hawdd i fythol hedd.

§ 2 Bren. 13, 21.

Arferwch eich cyneddfau mâd,
A ddaeth o law'ch haelionus Dad;
Arafwch beunydd, cym'rwch bwyll,
Rhag syrthio drwy ddeniadau twyll.

Arferwch ddweyd y gwir, bob darn,
A chofiwch foreu mawr y farn;
Y dyn celwyddog deflir draw,
I'r isel lu, ar aswy law.

Egwyddor groew, union gred,
Hwn yn ei fyw yn iawn a fêd;
Tra'n teithio drwy beryglon byd,
Ar fara'r Nef caiff fyw o hyd.

Ow! dyma'r gwron gwyd yn gawr,
O'r bedd, yn llon o bridd y llawr;
A'i gyfri'n barod gyd ag ef,
Mewn hawl o'i nawdd yn nheulu'r Nef.

Caiff edrych 'nol o ben y daith,
Ar droion dyrys anial maith;
A'u tuedd'adau o bob rhyw,
Yn gaerau dewr o gariad Duw.

Ymhell uwchlaw gofidiau'r byd,
Yn hardd ei wedd mewn hedd o hyd;
A'i gân yn bêr ar dyner dôn,
A melus iawn yn moli'r Ion.

Awst, 1851. IOAN TRIPHLYG.

TEIMLAD UN AR OL EI FAM.

Yn mwth fy nhad yn gyson
Ymgeledd ge's o galon,
Ond nawr 'does gysur yno byth;
Aeth Mam i blith y meirwon.

Os af i'r bwthyn weithiau,
Lle yntho'n hir bu'm cartre;
Ow! llwfr wyf yn llefain am
Fy anwyl Fam sy'n eisiau.

Mae hon a'i llwch yn llechu
Ar waelod oerllyd wely,
'Dyw wylo'n wael imi ond ffol,
Ni ddaw hi nol ond hyny.

Er gwala o bob ymgeledd,
Gwnewch sylwi bawb, mae salwedd
A thoriad calon ar bob cam,
'Roi anwyl Fam i orwedd.

Mae taflu golwg unwaith,
I'r meddwl nawr yn oerwaith,
Ar y bwthyn man lle bu
Da geny' am dano ganwaith.

Fy nhad! fy nhad! O! peidiwn,
Pa ham mor wael y wylwn;
Wrth gofio am ei phryd a'i gwedd:
Mae yn y bedd gwybyddwn.

Er myn'd i blith y meirwon,
I aros dyddiau hirion;
Gobeithio cyfyd Nefol Dad
Hi' ngolau gwlad angylion.

Llanbedr. D. ab DEWI FARFOG.

Penybont: Argraffwyd gan W. Leyshon.